

ECO'r Wyddfa

Rhif: 451
Chwefror 2017
Pris: 70c



O Ynni Padarn Peris i gyfarfod Brenin Sbaen



Elin Prysor o Benisarwaun yw'r unig un o Brydain i ennill ysgoloriaeth sy'n ei galluogi i ddilyn cwrs ôl-raddedig mewn Rheolaeth Ynni Byd-Eang ym Mhrifysgol Ystrad Clud, Glasgow. Cwmni ynni rhyngwladol wedi ei ganoli yn Sbaen yw IBERDROLA, ac y mae Scottish Power yn rhan ohono. Mae 14 o ysgoloriaethau'n cael eu dosbarthu'n flynyddol gan Scottish Power er mwyn astudio cwrs ôl-raddedig sy'n ymwneud a gwaith ymchwil ynglyn a'r diwydiant ynni. Mae IBERDROLA hefyd yn cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr o Sbaen a Brasil, a phob blwyddyn bydd y myfyrwyr llwyddiannus yn cael gwahoddiad i bencadlys y cwmni yn Madrid i dderbyn eu tystysgrifau gan neb llai na Brenin Sbaen.

"Roedd yn brofiad afreal iawn," meddai Elin. "Roeddem yn sefyll gyda'r Brenin a'r Frenhines, Gweinidog Addysg Sbaen a Chadeirydd y cwmni ynni yn wynebu wal o gamerau'r wasg yn fflachio arnom! A thu cefn roedd pump llawr o swyddfeyd, a'r gweithwyr i gyd yn ceisio cael golwg ar y seremoni."

Cafodd Elin sgwrs gyda Gweinidog Addysg Sbaen, a holodd o ble roedd yn dod. Pan atebodd hithau 'Cymru', ei ymateb oedd "Aaaah! Gareth Bale, chwaraewr mwyaf poblogaidd Madrid."

Graddiodd Elin mewn Hanes, ond roedd ganddi ddiddordeb mewn cwmnïau cymunedol oedd yn ceisio cynhyrchu ynni'n lleol, a bu'n gwirfoddoli gydag Ynni Padarn Peris. Meddai Elin: "Mae cymaint o gynlluniau cyffrous iawn yn ymwneud a chynhyrchu ynni cymunedol yng Nghymru heddiw, a bu Ynni Padarn Peris yn help i ysgogi diddordeb mawr yn y pwnc a bod yn gefnogol iawn i'm cais, yn ogystal a bod yn syniad gwyb o gyfrannu at y gymuned a chreu ynni gwyrdd."

Nid ysgoloriaeth ariannol yn unig a dderbyniodd Elin. Mae'n cael cyfle hefyd i weithio ac ymchwilio gyda chwmni Scottish Power, gan ymweld â Gorsaf Bwer Cruachan a Fferm Wynt Whitlee. Ar gyfer ei gwaith ôl-radd mae mewn cyswllt cyson a swyddfeydd Glasgow a Wrecsam sy'n gwneud gwaith yn delio â 'smart meters'. Ei gobaith yw cael swydd maes o law gyda'r cwmni.



ECO'r Wyddfa

CYMRAG

RHIF 451 Chwefror 2017

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifon Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2015

Rhifyn
Mawrth

Copi i law
19 Chwefror

Bwndelu
3 Mawrth

Ble
Llanrug

LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,
Tybed a fyddai diddordeb gyda rai o ddarlennwyr Eco'r Wyddfa yn y digwyddiadau isod?

Prynhawn Sadwrn 4 Chwefror, i gychwyn am 11.30 am, Bardd mewn Bws: Chwedl a Chainc gyda Mair Tomos Ifans a Gerallt Pennant. Aberdesach i Nefyn. £6.50

Prynhawn Sul 12 Chwefror, i gychwyn am 1.00 pm, Bardd mewn Bws: Y Môr a'i Donnau gyda Myrddin ap Dafydd a Twm Elias. Arfordir Nefyn a'r cyffiniau. £6.50

Penwythnos 17 - 19 Chwefror, Gŵyl Farddoniaeth Tŷ Newydd gyda llu o ddigwyddiadau ac adloniant ar gyfer y teulu oll.

Nos Iau 23 Chwefror, i gychwyn am 7.00 pm o dafarn Y Whitehall: Taith Dafarndai Lenyddol o gwmpas Pwllheli gyda Gwyneth Glyn a Twm Morys

Nifer cyfyngedig o docynnau sydd ar gael ar gyfer y teithiau bws a rhaid archebu o flaen llaw.

Gyda diolch,
Miriam Williams
Tŷ Newydd, Llanystumdwy
01766 522 811

EIN GWIR HANES

Eleni eto, bydd Canolfan Hanes Uwchgwyrfai yng Nghlynnog Fawr yn parhau â'r gyfres arloesol a phoblogaidd, 'Ein Gwir Hanes'. Eisoes cafwyd deg cyfarfod llwyddiannus yn edrych yn fanwl ar gyfnodau a digwyddiadau allweddol yn hanes ein gwlad, pethau'n amlach na pheidio na chlywsom amdanynt yn ein gwersi ysgol. Hyderwn y bydd gan ein cyd-Gymry ddiddordeb mawr yn y cyfarfodydd eleni eto. Dyma'r dyddiadau ar gyfer eich dyddiaduron yn 2017:

Chwefror 4ydd, Mai 13eg a Hydref 14eg.
Bydd pob cyfarfod yn dechrau yn brydlon am 10.30am ac yn dod i ben tua 2.30pm.

Fel arfer, rydym yn sicrhau siaradwyr brwd o'r safon uchaf sydd yn dra hyddysg yn eu meysydd. Yn ein cyfarfod cyntaf (ym mis Chwefror) byddwn yn cofio a dathlu tri chanmlwyddiant geni'r Pêr Ganiedydd, Williams Pantycelyn, gŵr a effeithiodd mor drwm ar fywyd ein cenedl hyd heddiw. Mae ein dau siaradwr yn wŷr sy'n hyddysg iawn yn ei hanes ac yn hanes y cyfnod roedd o'n byw ynddo, sef Dr Goronwy Prys Owen, Y Bala, a'r Athro E. Wyn James, Caerdydd.

Mae'r ddau gyfarfod dilynol i'w trefnu, ac fe gewch y manylion maes o law.

Rhan gyson o genhadaeth arloesol Canolfan Hanes Uwchgwyrfai yw'r cyfarfodydd hyn o'n 'Gwir Hanes'. Ni chodir tâl mynediad. Darperir 'paned am ddim, a bydd croeso cynnes yn eich disgwyl. Dowch â thamaid o fwyd i'ch canlyn.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â ni:
Ffôn: 01286 660 546/853/655
E-bost: canolfanuwcgwyrfaei@gmail.com

'Anghofio yw bradychu'

Arbenigwyr mewn ceir VW,
Audi, Seat, Skoda & Porche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

01286 673559

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

RHOIDDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£20: Teulu Cynfi er cof am Margaret Cynfi, Deiniolen; Mrs Helen Adams a theulu Mrs Betty Humphreys, Llanberis; Teulu Wenllys, Llanrug ac Ann a Dafydd, Sycharth, Penisarwaun, er cof am Mary. Er cof am Mair Jones, Cilan Bethel gan y teulu

£10: Mrs Beryl Griffiths, Deiniolen; Teulu Trefor Davies, Llanrug' Gwyn a Mai Davies, Llanrug. Brian ac Eirlys Sharpe, Ael-y-Bryn, Bethel

£5: Tanwen Fretwell, Llanrug; Mr a Mrs Victor Jones, 11 Bryntirion, Penisarwaun

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaei

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaei ar nos Fawrth, 21ain Chwefror, am 7.30 o'r gloch yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon. Y siaradwr gwadd fydd Gruffydd Antur a'i destun fydd 'Pethe'r Pum Plwy'. Estynnir croeso cynnes i bawb. Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru.

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!

(01286) 673574

CLWB CINIO ARFON



Yr archeolegydd Iwan Glyn Parry, yn enedigol o Benisarwaun ddaeth draw yn westai mis diwethaf. Dywedodd fod ymchwilio a 'thyrchu' wedi bod yn ei waed ers dyddiau cynnar. Yn ei gyfnod yn Ysgol Brynrefail roedd canu cyfoes yn apelio hefyd a bu am gyfnod yn reolwr grwp Epitaph (Brigyn erbyn hyn.)

Graddiodd o Brifysgol Bangor gyda gradd mewn Archeoleg a Hanes. Bu am 10 mlynedd yn gweithio i Ymddiriedolaeth Archeoleg Gwynedd a chafodd brofiadau led-led Cymru. Ers dwy flynnedd mae wedi sefydlu y cwmni Brython gyda'i wraig Laura. Mae cryn alw am eu gwasanaeth. Un agwedd bwysig o'u gwaith yw archwilio tir cyn unrhyw ddatblygiad adeiladu, i wneud siwr nad oes unrhyw grair hanesyddol dan fygythiad o'r datblygiad. Maent yn rhan bwysig o'r broses gynllunio felly. Daw galw hefyd ym maes ymchwilio tir, a'r prif ddyletswydd o warchod unrhyw archeoleg. Soniodd am ddau brosiect ddiweddar. Yn gyntaf, estyniad i Chwarel Cefn Graianog, Llanllyfni. Cawsom weld yr hyn roedd y tyrchu cywrain wedi ail ddychwelyd i olau dydd. Yn eu mysg roedd crochenwaith o'r Oes Efydd. Ambell i fedd o'r un cyfnod.

Yn un o'r cistiau claddu roedd llwch dynol- arwydd o amlogi cynnar. Y prif ddarganfyddiad oedd potyn o gyfnod diweddaraf yr oes Neolithig mewn cyflwr rhyfeddol. Dyma gyfnod y mewnffudo o Ewrop. Roedd ymchwilio pellach yn ymdebygu'r potyn yma â rhai cyffelyb a ddarganfyddwyd ger Côr y Cewri.

Rhodddwyd y brif sylw i'r hyn ddarganfyddwyd wrth baratoi llwybr ffordd gyswllt Llangefni. Wrth ymchwilio, daethpwyd o hyd i gorff. Roedd yr heddlu yn ymchwilio am ddeuddydd gan fod dau berson ar goll ar yr ynys ar y pryd. O gloddio mwy darganfuwyd fod yno fynwent, gan gynnwys gweddillion plant. Roedd rhai beddau yn cynnwys cistiau penodol, eraill yn feddau ddi-gist. Yr oedd mwy nag un corff yn rhai o'r beddau. Yr oedd yr elfen gref o galchfaen yn y pridd wedi cadw y cyrff mewn cyflwr da, ac felly ar hyn o bryd mae y cyrff i gyd yn cael eu hymchwilio draw yng Nghaerdydd. Yn ffodus, roedd Iwan a'i griw yn gallu dyddio rhai o'r beddau. Roedd dau gliw pendant i'w cynorthwyo. Yn un o'r beddau darganfyddwyd breichled mewn cyflwr rhyfeddol. Hefyd ar ambell gist roedd y symbol o groes gyda'r llythyren P. Dyma arwydd pendant ein bod yn ymdrin â chyfnod y Rhufeiniaid ym Môn, ac felly dechrau y cyfnod Gristnogol yn y parthau hyn. Yr oedd Iwan wedi rhyfeddu mai yr enw lleol ar y darn o dir oedd Coed y Meirw. Onid enghraifft arall yw hyn o'r pwysigrwydd o gynnal a chadw yr hen enwau Cymreig ar ein tirwedd.

Noson addysgiadol hwyliog oedd hon. Trist oedd clywed gan Iwan ar y diwedd fod hi'n fwriad gan y Brifysgol ym Mangor ddod a'r adran Archeoleg i ben. Mae deiseb yn gwrthwynebu eisioes ar waith. Fe allai hyn ddilyn gydag amheuan am yr Adran Hanes Cymru. Buasai hyn â goblygiadau dwys mewn agwedd arbennig o fywyd cenedl, a chan ofyn y cwestiwn o ble y daw haneswyr Cymraeg ein hiaith i'n hysgolion yn y dyfodol.

Yn ystod y mis a aeth heibio ...

- Ym mis Rhagfyr, Cyngor Gwynedd yn penderfynu eu bod am godi treth ychwanegol ar dai haf, gan ddilyn esiampl nifer o gynghorau eraill yng Nghymru. Croeso gan rai carfanau sy'n credu fod pobl ifanc yn cael eu cau allan o'r farchnad dai o ganlyniad i bryniant tai haf. Eraill yn ddrwgdybus oherwydd fod cyfran sylweddol o economi'r sir yn ddibynnol ar y farchnad dwristiaeth. Pawb a'i fys...

- Yr Ysgrifennydd Cymunedau, Sajid Javid, yn cysidro cyflwyno 'llw o ffyddlondeb i werthoedd Prydeinig' (beth bynnag fo'r rheini) i bob gweithiwr yn y gwasanaethau cyhoeddus.

- Comisiynydd Ewropeaidd Prydain yn ymddiswyddo lai nag wythnos cyn dechrau trafodaethau ynglŷn â thelerau Brexit.

- Cwmni Snowdonia Pumped Hydro yn derbyn trwydded gwaredu dŵr i Lyn Padarn a Nant y Betws gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

- Chuka Umunna, AS Llafur a Chadeirydd yr All-Party Parliamentary Group yn datgan "It's clear that immigration has impacted on different communities in different ways and the pace of change has alarmed many. The Government has a duty to

address the lack of integration of immigrants if it is to address this." Pe bai'r rhai sy'n poeni am Seisnigeiddio ein broydd Cymraeg eu hiaith gan fewnffudwyr yn dweud hyn, byddent yn cael eu labelu'n genedlaetholwyr eithafol a hiliol. Mae'n amheus a fyddai Sajid Javid yn cysidro'r Gymraeg yn un o'i 'werthoedd Prydeinig'.

- Pleidleisiodd Aelodau'r Cynulliad o 38 i 17 i dderbyn Bil Cymru. Roedd y Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn datgan pryderon amlwg ynglŷn â'r Bil, ond penderfynodd y grŵp Llafur ei gefnogi tra gwrthwynebodd grŵp Plaid Cymru.

- Cyflwynodd Theresa May ei breuddwyd o'r hyn a olyga Brexit i'r Llywodraeth. A bydd Prydain yn gadael y Farchnad Sengl, rhywbeth yr oedd Llywodraeth Cymru yn gobeithio na fyddai'n digwydd. A gyda'r Alban wedi gwrthwynebu gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae'n ymddangos fod y trafodaethau a gafodd Theresa May gyda llywodraethau'r ddwy wlad wedi disgyn ar glust fyddar. Dyna pa mor 'gyfartal' yw Cymru a'r Alban o fewn y Deyrnas (honedig) Unedig. Mae'n fwy-fwy amlwg mai Lloegr a'r Toriaid sy'n tra-arglwyddiaethu.


- Ac erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd, bydd Donald Trump yn Arlywydd yr Unol Daleithiau, pa mor 'unol' bynnag font hwythau hefyd.

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

Llanast ar y copa



Yn dilyn eira cynnar ddechrau Ionawr, ymwelodd rhai cannoedd o gerddwyr â chopar Wyddfa. Ond pan feiriolodd y cnwd cyntaf o eira, a chyn i'r ail gnwd gyrraedd, dyma'r olygfa druenus – a chywilyddus ar y copa: sbwriel. A doedd dim posib beio cwsmeriaid y caffi; roedd hwnnw ar gau. Mae'n ymddangos fod cario pecynnau bwyd, poteli a chaniau i'r copa yn hawdd, ond ar ôl eu gwagio, maent yn rhy drwm o'r hanner i'w cario i lawr yn ôl! Dangosodd ystadegau diweddar fod 600,000 o bobl yn ymweld â chopar Wyddfa bob blwyddyn. Pe bai dim ond 1% o'r ymwelwyr hyn yn gollwng darn o sbwriel; boed yn becyn creision gwag, can diod neu botel blastig, yna byddai chwe mil o ddarnau o sbwriel yn cael eu gadael ar y mynydd. Does ryfedd fod galw cynyddol am rhyw fath o reolaeth i gyfyngu ar y llifeiriant o ymwelwyr. Ond sut mae datrys y broblem?

Mae bron i ddeg ar hugain o fusnesau twristiaeth wedi arwyddo i fod yn rhan o'r cynllun gwirfoddol Rhodd Eryri; cynllun a lansiwyd y llynedd dan anogaeth Arloesi Gwynedd Wledig. Gyda'r arian a gesglir drwy'r cynllun hwn mae prosiectau megis trwsio llwybrau ar yr Wyddfa yn elwa. Roedd yr "Eco" eisoes wedi mynd i'r wasg cyn i gyfarfod Rhodd Eryri gael ei gynnal yn Llanberis i adrodd ar y datblygiadau dros y chwe mis diwethaf. Yn anffodus, ni all hyd yn oed bwll di-waelod o arian leddfu na datrys yr holl broblemau. Efallai fod yr amser wedi dod i ystyried cyflwyno deddfwriaeth fyddai'n cyfyngu neu'n rheoli niferoedd y bobl ar y mynydd. Ond mae'n siwr y byddai unigolion a grwpiau awyr-agored yn groch eu llais yn gwrthwynebu'r fath awgrym!



Tacluso'r pentref

Os ywsbwrielyn broblem argopar Wyddfa, mae pentref Llanberis, wrth droed y mynydd yn elwa o ymdrech rhai unigolion i dwtio, tacluso a gwella delwedd weledol y pentref. Eisoes mae bonion coed yn y pentref wedi eu trawsnewid yn gerfluniau, a thros y misoedd diwethaf mae rhai cannoedd o fylbiau Cennin Pedr wedi eu plannu – rhoddion gan amryw unigolion, a'r cyfan wedi eu plannu gan Eric Baylis – a fydd, gobeithio, yn rhoi gwledd o liw yma ac acw drwy'r pentref pan ddaw'r gwanwyn. Yr ymdrech ddiweddaraf gan Eric a'i griw o wirfoddolwyr oedd clirio llain ar ymyl y Stryd Fawr a'i thirlunio, gan osod hen dryciau cario llechi a phlannu llwyni coed 'acer', a fydd yn sicr o dynnu sylw ymwelwyr a chadarnhau etifeddiaeth chwarelyddol y pentref. Ac y mae'r cyfan yn cael ei wneud gan wirfoddolwyr a chefnogaeth Grwp Datblygu Llanberis. Tybed a gaiff yr ymdrechion gwirfoddol hyn eu hefelychu gan bentrefi eraill y fro?

Cyfarchion Pen-blwydd Dymuniadau gorau am ben-blwydd hapus iawn yn 95 oed ar Chwefror 3ydd i Mrs. Betty Humphreys, Plas Pengwaith.

Cariad mawr oddi wrth Helen, Tony a'r teulu, a Kate, Nan a'r teulu i gyd.

Profedigaeth Trist iawn oedd mynd i angladd Mair Lloyd Price yn Fynwent Bryn y Bedd, Dolwyddelan, ar y 22 o Dachwedd. Un o Stryd Ceunant, Llanberis, oedd Mair, yn ferch i Thomas a Mary Griffiths a chwaer i Elwyn. Bu yn gweithio yn Siop Gornel, sef Pete's Eats heddiw, ac yn Siop Becws, Penbryn hefyd. Priododd yn 1970 a symud i Ddolwyddelan gyda'i phriod, John.

Oedfaon Capel Coch

Chwefror Sed: Mr Dafydd Iwan 10yb. DIM OEDFA 5yh.

12fed: Y Gweinidog 10yb. Oedfa MOLI 5yh.

19eg: Parchedig Cath Williams 10yb a 5yh.

26ain: Oedfa Deulu 10.30yb.

Mawrth Sed: Mr Euron Hughes 10yb. DIM OEDFA 5yh.

12Fed: Y Gweinidog 10yb. Oedfa Moli 5yh.

19Eg: Cyfarfod Gweddi 10yb. Parti Bytholwyrdd 5yh.

26ain Oedfa Deulu 10.30yb.

Parti Bytholwyrdd Hoffai Mrs Mattie Hughes a Parti Bytholwyrdd, ddiolch o galon i bawb a ddaeth i'w Cyngerdd Nadolig yn Capel Coch ar y 15fed o Ragfyr. Hefyd, diolch yn fawr iawn i'r rhai a fu'n cynorthwyo ymhob dull a modd. Hoffai'r Genod yn y Parti, ddiolch yn arbennig i Mrs Carys Edwards, ein gwraig Wadd oedd, gyda'i dawn a'i bwrlwm, yn gwneud yr achlysur mor llwyddiannus.

Diolch diffuant i Mattie a Bethan am eu hamynedd diflino yn ein cynnal ar hyd y flwyddyn a llawer blwyddyn arall i ddod, gobeithio. Diolch yn fawr iawn un ac oll.

Cyfeillion Plas Pengwaith Dymuna Cyfeillion Plas Pengwaith ddiolch i Ffrindiau Bytholwyrdd am eu rhodd o £200 a gasglwyd, er budd y Cyfeillion, yn y Gwasanaeth Canu Carolau a gynhaliwyd gan Y Ffrindiau yn Festri Capel Coch ychydig cyn y Nadolig.

Enillydd y Bel Bonws am fis Rhagfyr oedd Helen Adams.

Côr Dyffryn Peris Mae'r arian a gasglwyd yn ystod y Cyngerdd Blynnyddol, gyda'r Côr a Band Deiniolen yn cymryd rhan, wedi ei ddsbarthu i ddau fudiad lleol, gyda £150 yn mynd i Gylch Meithrin Llanberis a Nant Peris, a £150 yn mynd i Gôr Plant Ysgol Dolbadarn.



Cylch Meithrin Llanberis a Nant Peris Bu plant y Cylch Meithrin yn brysur y tymor diwethaf yn creu lluniau i addurno siop wallt TW HAIR, Llanberis, ar gyfer y Nadolig. Diolch i Wayne am alw draw i'r Cylch gydag anrhegion i'r plant.

Hyn ac Arall

Merlod, Arweinyddion, a'r Cyfan yn dal Cyswllt â'r Wyddfa

Allt, craig, crib, llwybr, yn ogystal â rhywrai i'ch arwain. Ie'r Tywysyddion! Yn ystod ein gorffennol agos, perthynai'r rhain oll i'r Wyddfa, a rhai o fynyddoedd eraill Eryri. Sylwer 'T' fawr! A hynny o ran dyledus barch iddynt. Oni bai penstandod a'r chwildod tremio ar i lawr, hyd yn oed o ben ysgol, mi fuaswn wedi dymuno cael bod yn rhan o'u bydoedd a'u hanesion. Digon gwir mai bydoedd geirwon tu hwnt o galed a geid bryd hynny. Eto, erys yn rhan annatod ohonom ni fel cenedl.

Mi rydw i, ers blynyddoedd, yn cael mwynhad, a hynny hyd ei filfed, bob tro'r ail ddarllenaf gyfrolau cynhwysfawr ac erthyglau difyr a ddadlenna wirioneddau o eiddo'r cyfaill cymwynasgar, Dewi Jones, sy'n byw ym Mhenygroes, Arfon. Dyma ddyfynnu, hynny'n fwriadol-ddigon, o'i lyfr 'Tywysyddion Eryri' Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch (1993) '...erbyn 1896' ebe Dewi, 'gellid teithio i gopa'r Wyddfa yn gyfforddus a diymdrech ar y trên bach. Roedd 1896 ...y flwyddyn dyngedfennol i dywyswyr ardal Llanberis, a phur anaml wedi hynny y defnyddid y "guide a'r pony", fel y dywed Ap Glaslyn:

Ffarwel i'r "Guide a'r Pony" -

Fe'u collid hwy yn lân,

Chwibanwyd eu "marwnad",

Do, gan y "Ceffyl Tân".

O 1869 ymlaen, un o'r pethau cyntaf a welai'r ymwelwyr wrth ddod oddi ar y trên yng Ngorsaf Llanberis fyddai rhes o ferlod mynydd yn disgwyl am lwyth i fynd i fyny'r Wyddfa. Arweinid tua hanner dwsin ohonynt... gan dywysydd, ac roeddynt yn eiddo i reolwyr y cabanau oedd ar y copa.'

Rai blynyddoedd yn ôl, efo fy nhrwyn, â'i holl fflatrwydd Huw Puw, yn dynn wrth dudalen wythnosolyn Y Cymro Mehefin 1

(1948) dyma daro ar y pennawd 'Bu'n arweinydd ar yr Wyddfa cyn ddyddiau'r trên.'

Dywedir mai Morris Owen, 77 mlwydd oed, Oakfield, Ffordd Capel Coch, Llanberis, ydoedd yr olaf o linach yr Arweinwyr. Gwas yng ngwesty'r Castell ydoedd M.O. pan ddechreuodd hebrwng 'pobol ddiarth' i fyny'r Wyddfa. Byddai bryd hynny yn gofalu am y merlod. Cofiai 'ddau ddwsin' o'r creaduriaid a'r oll 'yn eiddo gwahanol berchenogion yn y pentref', ac fel y byddent tra'n disgwyl eu 'marchogion dieithr' ger gorsaf yr L.M.C., yn tyrchu'r ddaear' hefo'u traed aflonydd. Gwisgai nifer o'r Tywysyddion glos a legins, blows wen a strap ar ei thraws.

Tâl tywys ydoedd 25 ceiniog, a hynny pan ydoedd hi liw dydd golau. Liw nos telid 35 ceiniog a dimai, a 25 ceiniog ydoedd y swm a godid am wasanaeth merlyn. Cofiai M.O. esgyn y mynydd hefo'r merlod a'r teithwyr yn ei ragflaenu a nifer o'r creaduriaid pedair coes yn 'cario merched mawr blonegog a oedd, gellid meddwl, yn ddigon trwm i'w hysigo am byth'.

Cafwyd un mis Awst yn ogystal daith yng nghanol 'storm ofnadwy o genllysg'. Run mor fyw ydyw disgrifiad M.O. o'r Wyddfa, hefo Arweinwyr o Lanber a'r Bedd (Beddgelert) yn cyd-gyfarfod ar y copa, hefo cymaint â deugain o ferlod a cheffylau yno hefo'i gilydd. Ie! golygfa gofiadwy iawn, bid siŵr.

Diwedd y merlod a'r tywysyddion Cymreig yn eu cysgodion ydoedd dyfodiad y trên bach, ac onid oes yma gyfle dwedwch i osod plac ar fur neu garreg, neu hyd yn oed gerflun merlyn a thywysydd, a hynny rhywle ar lechweddau, hyd yn oed waelodion yr Wyddfa, a chyflawni'r cyfan er mwyn atgoffa teithwyr cyfoes o'r hanes unigryw, - ie" arweinyddion a'u merlod? Ie! Beth amdani?

Dafydd Gruffydd Ifan



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Y Ddau

[Emrys 'Cwm' a Jane Groeslon Ucha' Dinorwig]

Yn oes dyn y lleud yn hel pricia',
ac Ysgol Brynrefail heb symud lle,
'roedd gennym arwyr. Fel arfer hogia'
dipyn hŷn na ni, gydag elfen gre'
o fyd y bêl-droed yn eu gwneuthuriad,
yn oriel y rhain yn saff roedd 'rhen Em -
y cawr o'r Cwm, a chlamp o gól-geidwad,
prydweddol - dywyll, a siriol ei drem ...

Lerpwl a'i cafodd, a Jane ei briod,
rhoi ei hoes-waith o ddiwylliant ein bro
i sawl ysgol - a'r ddinas - Gymreictod;
ond balch o ddod adre' i ardal eu co'...
Bellach, i'r ddau, bu'r hen flwyddyn yn drech
aeth Em at ei Jane 'n nwy fil un deg chwech.

Norman Closs



Siân Gwenllian
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225

Trawsnewid cartrefi ein tenantiaid



Mae cynllun gwerth £2.3 miliwn i wella 111 o gartrefi 'anraddodiadol' Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) ar draws Gwynedd wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar.

Cafodd tai anraddodiadol eu hadeiladu yng Ngwynedd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd fel rhan o'r ymgyrch 'cartrefi ar gyfer ein arwyr' a cawsant eu hadeiladu mewn ffyrdd gwahanol i'r arfer, dull 'tŷ parod'.

Yn dilyn y rhyfel roedd prinder mewn defnyddiau adeiladau a phrinder cartrefi, ac o ganlyniad roedd tai yn cael eu hadeiladu ar frys gyda deunyddiau fel fframwaith coed Swedaidd a fframiau metel.

Roedd pum tŷ yn Maes Gwylfa, Deiniolen, a dau dŷ ym Maes Padarn, Llanberis, oedd wedi eu hadeiladu o fframwaith coed Swedaidd yn y 40au yn rhan o'r cynllun. Aethom i gyfarfod Mrs Beryl Griffiths i weld y gwahaniaeth mae'r gwaith wedi ei wneud i'w bywyd hi. Dywedodd wrthym:

"Mae fy nghartref yn hyfryd, mae'n gynnes braf yma ddydd a nos. Mae fy nheulu a fy ffrindiau sy'n galw draw i gyd yn dweud bod y tŷ fel

newydd. Mae staff CCG a Willmott Dixon wedi gwneud gwaith da iawn, a fedra i ddim diolch digon iddyn nhw."

Mae Mrs Griffiths yn 101 oed ac wedi bod yn denant i CCG ers bron i 70 mlynedd. Hi a'i theulu ydi'r unig denantiaid sydd erioed wedi byw yn y tŷ ers 1948.

"Bu fy ngŷr, Williams Griffiths, yn ymladd yn yr Ail Ryfel Byd am 6 mlynedd, a cawsom y tŷ yn Neiniolen pan ddychwelodd ar ôl y rhyfel. Ni ydi'r teulu cyntaf a'r unig deulu sydd wedi byw yn y tŷ.

"Cyn i'r gwaith gael ei wneud roedd y tŷ yn oer a drafflyd. Roedd yn rhaid i fi ddefnyddio nifer o flancedi i gadw fy hun yn gynnes. Rwan, dim ond un dwi angen. Rwyfyn fodlon ac yn hapus yma yn gwrando ar y radio a gwyllo'r operâu sebon yn fy nghartref cynnes a chyfforddus.

"Dros y blynyddoedd mae nifer o bobl wedi holi beth yw'r gyfrinach i fyw bywyd hir? Byddaf yn dweud wrthynt fy mod yn cael paned o ddŵr berwedig bob bore, a tan roeddwn yn 90 oed roeddwn yn cerdded o Ddeiniolen i Eglwys Santes Helen, Penisarwaun bob dydd Sul. Byddwn yn cerdded drwy bob tywydd, glaw neu eira. Nes i erioed fethu gwasanaeth ar fore Sul.

"Mae'r tŷ yma wedi bod yn gartref i fi a fy nheulu erioed a dw i'n falch bod CCG wedi buddsoddi ynddo ar gyfer y dyfodol."

Cafodd y gwaith gwella sylweddol ei wneud gan gwmni Willmott Dixon, ac roedd y gwaith yn cynnwys; rendro allanol, insiweiddio, ail wneud toeau a simnai a mwy.

Dywedodd Ffrancon Williams, Prif Weithredwr CCG: "Fel y gymdeithas dai fwyaf yng ngogledd Cymru, ein nod yw i fod yn ddarparwr blaenllaw tai o safon. Roedd y cynllun yma yn ddarn mawr o waith ac yn bwysig i ni. Mae'n braf iawn gweld y gwahaniaeth mae'r gwaith wedi ei wneud i fywydau ein tenantiaid."

Gwasanaeth Nadolig Daeth tyrfa dda o bob oed eleni eto i Eglwys Crist Llandinorwig ar Noswyl y Nadolig i'r gwasanaeth blynyddol o dan arweiniad y Canon Idris Thomas, Glanrafon. Cafwyd seremoni'r canhwylau ar ddechrau'r gwasanaeth gyda Sion, Erin, Neli ac Annedd yn cymryd rhan ac yn golegu'r canhwylau.

Darllenwyd yn y gwasanaeth gan Brian Price a'r Dr. William Munro ac ef hefyd oedd yr organydd. Cafwyd pregeth afaelgar iawn ar hanes Y Geni gan y Canon Idris Thomas. Roedd yr Eglwys wedi ei haddurno'n hyfryd a chelfydd a diolchwyd i aelodau gweithgar yr Eglwys am eu gwaith. Yr Ystlyswyr oedd Celt Williams a Darryl Williams a diolchwyd i Darryl hefyd am ganu'r gloch - gwnaeth hyn hefyd i groesawu'r

flwyddyn newydd. Mwynhaodd pawb yr awyryglch arbennig yn Eglwys Llandinorwig ar Noswyl y Nadolig eto eleni.

Y Gymdeithas Lenyddol Cynhaliwyd y gymdeithas yn ddiweddar. Roedd yn braf cael cwmni Annete Bryn Parri unwaith eto a'r tro hwn cawsom ganddi ganeuon Nadoligaidd o fyd y ffilmau ynghyd â charolau poblogaidd. Roedd yn noson ddifyr iawn, a'r gynulleidfa yn gwneud eu gorau i gofio teitl ambell gân.

Diolchwyd yn gynnes iddi gan Mr Brian Price.

Diolch Dymuna Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i gofalywyr am y cardiau Nadolig a dderbyniodd a hoffai ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Profedigaethau Yng nghanol

hwyl y Nadolig a'r mwynhad a geir o ddathlu, yn anfodus mae rhai teuluoedd yn dioddef tristwch bron pob blwyddyn gwaetha'r modd. Mai nifer o aelwydydd yn Neiniolen wedi cael Nadolig digon anodd eleni. Estynnir ein cydymdeimlad at bawb yn eu profedigaeth o golli anwyliaid.

Cydymdeimlir â theulu Eilir Williams, gynt o Pentre Helen, dyn ifanc hynod dalentog a fu farw cyn y Nadolig.

Yn yr un modd, cydymdeimlir â theulu Gordon Jones, Celyn, a fu hefyd farw dros y Nadolig.

Cydymdeimlir â theulu Ieuan Williams, Pentre Helen, o golli un mor annwyl.

Cydymdeimlir hefyd â theulu Cynfi yn eu colled o Fam a Nain arbennig.

Diolch Dymuna Emyr, Iola,

Glyn a'r teulu i gyd ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad yn dilyn colli mam a nain annwyl, Margaret Cynfi.

Diolch hefyd i deulu a ffrindiau Mam ac i bobl Deiniolen a'r cylch am eu cyfeillgarwch ati ar hyd y blynyddoedd ac i staff Gofal Bro, Hosbis yn y Cartref, Ward Peblig Ysbyty Eryri a Chartref Nyrsio Penisarwaun am eu gofal drosti. Diolch hefyd i E.W. Pritchard am eu trefniadau, i Eglwys Crist Llandinorwig a Seindorf Deiniolen a'r Parch John Pritchard a'r Parch Trefor Lewis am eu gwasanaeth. Cyflwynir y rhoddion er cof amdani i Hosbis yn y Cartref.

Dyma ran o deyrnged Emyr, Iola a Glyn i'w mam a ddarllenwyd gan y Parch Trefor Lewis yn yr angladd.

GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

MARGARET CYNFI

1932 – 2016

Ganwyd Margaret Cynfi Williams yn Cynfi, Deiniolen, ar Ragfyr y 6ed, 1932. Bu farw ar Ragfyr y Sed, 2016, chwarter awr cyn iddi gyrraedd ei phen-blwydd yn 84 oed. Mi fysa Mam wedi cael ei siomi, ac mi fysa ychydig bach yn flin hefo hi ei hun.

Roedd Cynfi yn rhan o'i henw, a hithau'n falch o arddel enw'r tŷ a godwyd gan y teulu yn 1888. Roedd yn unig ferch i William Llewelyn Williams, yn wreiddiol o Waunfawr, a Maggie Ellis o Rhos Fictoria, Deiniolen, a symudodd i Cynfi i fyw hefo'i hewythr a'i modryb, ar ôl iddi gollu ei mam.

Aeth Mam i Ysgol Llandinorwig, y drws nesaf i Cynfi, ac wedyn i'r hen Ysgol Brynrefail, gan deithio yno pob dydd hefo'i ffrind pennaf, Joyce Morris. Ym Mis Medi 1950 aeth i Goleg Prifysgol Bangor ac yn 1954 graddiodd mewn Astudiaethau Beiblaidd a Chymraeg. Dilynodd gwrs ymarfer dysgu wedyn cyn cychwyn ar ei swydd gyntaf yn Tasker Millward's School for Girls yn Hwlfordd, Sir Benfro.

Ar ôl blwyddyn yn Sir Benfro, cafodd swydd yn Ysgol Botwnnog, a dyna gychwyn un o gyfnodau hapusaf ei bywyd. Cael dysgu mewn ysgol Gymreig a chartrefol, yng nghanol pobol ddiwylliedig a chlên Pen Llŷn. Yno y gwnaeth gyfarfod Eric, dad, a chael croeso ar aelwyd Tyddyn Gwyn, Dinas, a symudodd y ddau i fyw i bentref Botwnnog ar ôl iddyn nhw briodi yn 1960.

Degawd o fagu plant oedd y Chwedegau yn bennaf, wrth i ni'n tri gael ein geni rhwng 1962 a 1968, ond wedyn dyma ail afael yn y dysgu yn rhan-amser yn Ysgol Dinorwig, Ysgol Gatholig Bangor ac Ysgol Brynrefail, Llanrug, cyn mynd i ddysgu Cymraeg ac Ysgrhythur yn llawn-amser yn Llanrug nes iddi ymddeol yn 1989.

Roedd Mam wrth ei bodd yn dysgu ac wrth ei bodd yng nghwmni plant. Doedd dim byd gwell ganddi na darllen stori, boed honno'n stori o'r Beibl neu o un o lyfrau T. Llew Jones, ac mi soniodd fwy nac unwaith wrthan ni am blant yn crefu arni i gario ymlaen i ddarllen os oedd y stori yn un gyffrous, hyd yn oed os oedd y gloch wedi canu. Cadwodd Mam mewn cysylltiad hefo nifer o'r disgyblion y bu'n eu dysgu, ac mi fyddai wrth ei bodd pan ddôi rhywun ati mewn siop i ofyn "Ydach chi'n fy nghofio i?", ac mi roedd hi'n cofio pob un, ac yn mwynhau sgwrsio a holi beth oedd eu hanes nhw a'u teuluoedd.

Ar yr wyneb doedd Mam ddim yn berson gwleidyddol iawn, ond mi fu'n aelod o Blaid Cymru ar hyd ei hoes. Criw bychan oedd criw y Blaid yn Neiniolen yn y 50au a'r 60au, a chriw digon amhoblogaidd yn aml. Er iddi fynd allan i ganfasio pan oedd yn fyfyrwr, trafod a pherswadio oedd dull Mam o ymgyrchu, ac mi soniodd sawl tro am y diwrnod y daeth ei Thad adra ar ôl bod yn pleidleisio, a chyhoeddi ei fod o, am y tro cyntaf erioed, wedi "fotio i'r Blaid Bach". Roedd pethau'n newid, ac ar noson etholiad 1974, roedd pawb ohonon ni yn gorwedd ar wely Mam tan ddau o'r gloch y bora yn gwrando ar y canlyniadau ar y radio, a gweiddi a dathlu mawr wrth i ganlyniadau Arfon a Meirion gael eu cyhoeddi.

Ond roedd yn gefnogol i bobol oedd yn fodlon torri'r gyfraith i gyrraedd y nod hefyd, yn deall eu cymhellion ac yn parchu eu haberth. A do, mi benderfynodd Mam hefyd dorri'r gyfraith ar un achlysur trwy wrthod prynu trwydded deledu, ac er nad oedd yn weithred fawr, nid ar chwarae bach yr aeth hi i lys barn i wynebu ei chosb.

Mae'n amhosib meddwl am Mam heb feddwl am lyfrau. Mi ddarllenodd, yn llythrennol, filoedd ar filoedd o lyfrau, ac mi wnaeth hi ail-ddarllen miloedd ohonyn nhw wedyn!

Câi bleser aruthrol hefo cofiannau a llyfrau o atgofion, yn ogystal â llyfrau pobol fel Islwyn Ffowc Elis a Harri Parri. Efallai mai barddoniaeth oedd yn rhoi'r pleser mwyaf iddi, a'r tri arwr mawr oedd T.H. Parry-Williams, T. Llew Jones a Dic Jones. Mi fedrai adrodd cannoedd o gwpledi ac englynion ar ei chof.

Roedd bywyd capel, a Chefn y Waun yn benodol, yn ganolog i fywyd Mam. Hi oedd y ddynes gyntaf i gael ei chodi'n flaenor yn Neiniolen, a bu'n Ysgrifenyddes y capel am ugain mlynedd, ac yn Ysgrifenyddes Cyhoeddiadau am tua 40 o flynyddoedd.

Cafodd gyfle i baratoi nifer o ddeunyddiau addysg, gan gynnwys addasu Fy Meibl Cyntaf, straeon o'r Beibl i blant bach.

Torrodd Mam ei chalon pan gaeodd Cefn y Waun, a dyna'r un pwnc nad oedd na drafod arno fo yn Cynfi. Ond gwelai'r angen i symud hefo'r oes, a bod yn barod i addoli hefo capeli, ac eglwysi eraill.

Mae na nifer fawr o bobol dros y misoedd diwethaf wedi cyfeirio at gof anhygoel Mam, wnaeth aros yn finio bron at y diwedd. Hi oedd cof ein teulu, a hanes pawb ar flaenau ei bysedd. Roedd ganddi gof arbennig am hanes ardal Deiniolen a byddai wrth ei bodd yn sgwrsio am hynny hefo pobol fyddai'n cerdded hebio Cynfi. Roedd Mam yn falch iawn o bentref Deiniolen, ac yn ymfalchio yn llwyddiant unrhyw un o'r pentref. Cafodd ofal a chyfeillgarwch dwsinau o bobol yma dros y blynyddoedd. Mi fedra Mam fod yn ddigon tawel, os nad swil ar adegau, ond mi roedd ganddi hiwmor parod ac annisgwyl iawn ar adegau. Elfen arall annisgwyl i'r rhai sy'n ei chofio yn gaeth i'r tŷ oedd ei hoffter o deithio. Tra roedden ni'n licio canmol ein bod wedi teithio i'r lle yma a'r lle arall, mi fyddai Mam yn ein hatgoffa yn dawel ei bod hi wedi hedfan i'r Eidal ac i'r Swistir ar wyliau, yn y 1950au! Ac mi wnaeth hi deithio hynny fedrai hi hefo ni hefyd. I'r Steddod fel arfer, neu i Gaerfyrddin at deulu Glanffwrdd, ac i Sir Benfro. Llwytho'r car – tri ohonon ni, dillad a bwyd ar gyfer y garafan, a ffwrdd â ni – fel arfer trwy Ryd-ddu. Da ni ddim yn siŵr ai honno oedd y ffordd gyflymaf, ta ai Mam oedd eisiau cael pasio Tŷ'r Ysgol, a Llyn y Gadair, ac adrodd sonedau Parry-Williams ar ei chof. Roedd y teithiau yn ffordd o ddangos Cymru i ni, ac o drosglwyddo ein hetifeddiaeth i ni. Crefydd, llenyddiaeth a gwladgarwch. Gwerthoedd oedd yn bwysig i Mam, a'u trosglwyddo trwy ysbrydoli, nid trwy bregethu. Fysa ni ddim wedi medru cael athrawes well, a chafodd Mam y pleser o drosglwyddo am yr ail waith wrth ddarllen llyfrau a dweud straeon wrth yr wyrion a'r wyresau i gyd. Fel pob Nain mi roedd yn cymryd balchder yn beth oedd y plant yn ei wneud.

Mae'n anodd os nad yn amhosib rhoi mewn geiriau maint ein colled fel teulu. Er yn barod i symud efo'r amser roedd Mam mewn gwirionedd o'r 'hen oes', yn gallu adrodd ar ei chof hanesion, helyntion a digwyddiadau o'r ganrif ddwytha fel tasan nhw wedi digwydd ddoe a hanesion a glywyd ganddi ar aelwyd Cynfi am ddigwyddiadau cynharach.

Mae colli unigolyn fel yma yn golygu fod y byd yn dlotach lle ar ei hól. Mae colli person gyda'r fath angerdd at ei gwlad, ei hanes a'i llên a'i chariad at yr iaith yn ergyd na ellir ei fesur. Ni fyddai hi ei hun wedi croesawu'r fath sylw ac yn ein dwrddio am wneud y fath ffws ond gwir ydyw pob gair.

Diolch Mam, am eich cefnogaeth, am eich gofal a charedigrwydd ac am eich cariad.

'Y mae Mam yma o hyd,
yn ynni mawr yn ein mysg'



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10**

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Buddsoddi mewn dŵr gwastraff Penisarwaun



Iwan Pritchard o gwmi Dawnus, Y Cynghorydd Hefin Williams ac Aled Morgan, Rheolwr Cyfalaf Gogledd Cymru Dŵr Cymru

Fel mae trigolion lleol yn gwybod, mae Dŵr Cymru yn buddsoddi £1 miliwn ar eu safle trin dŵr gwastraff ar Ffordd Craig Dinas a Tai Madoc, Stablau, Penisarwaun ar hyn o bryd. Pwrpas y gwaith yw sicrhau safon yn eu ymdriniaeth o ddŵr gwastraff o gartrefi'r ardal dros y degawdau nesaf. Dechreuodd y gwaith ym mis Medi a dwi wedi bod yn cyfathrebu ar ran rhai o drigolion pentref Stablau gyda Dŵr Cymru ers rhai misoedd er mwyn lleddfu ambell broblem neu anhawster sydd wedi codi. Fel gydag unrhyw waith o'r fath, mae'n creu anghyfleustra i ni'n lleol dros gyfnod y gwaith adeiladu. Mae'r gwaith ar y safle yn cynnwys gosod tanciau newydd o dan y ddaear yn ogystal a chreu phrosesau newydd er mwyn trin y dŵr. Y gobaith yw y bydd y gwelliannau wedi eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth eleni. Yn ystod y gwaith hoffwn ddiolch i bawb am eu hamynedd ac am y cydweithio da sydd wedi bod rhwng trigolion lleol, Dŵr Cymru, Cyngor Gwynedd, y Cyngor Cymuned ac eraill. Mae'r buddsoddiad yn un pwysig i'r ardal ac i ni fel defnyddwyr, felly rydym yn falch bod Dŵr Cymru yn buddsoddi yn y gwaith hwn i sicrhau safon a diogelwch yn yr ardal. Cysylltwch â mi os ydych angen unrhyw gymorth yn ystod y cyfnod datblygu.

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Rydym yn cydymdeimlo yn ddwys iawn gyda Mrs Sharon Jones a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth mor annisgwyl yn ystod mis Rhagfyr.

Yn anffodus bu raid i ni ffarwelio â phedwar o ddisgyblion ar ddechrau'r Tymor. Dymuniadau gorau i Havi, Indi a Maia sydd wedi symud i fyw i Lanfairfechan ac i Nathan yn ei ysgol newydd ym Mangor.

Cafodd plant CA2 brofiad o chwarae pêl-droed dan arweiniad

Nathan Craig o Glwb Pêl-droed Caernarfon bore dydd Iau, Ionawr 12fed. Roedd pawb wedi mwynhau'r sesiwn blasu yma a bwriadwn drefnu iddo ddod yma i gynnal sesiwn bêl-droed yn wythnosol am gyfnod yn y dyfodol agos.

Croesawyd Y Barch Carol Roberts, Ficer Bro Eryri, i gynnal gwasanaeth yn yr ysgol bnawn dydd Gwener, Ionawr 20fed. Dydd Iau, Ionawr 26ain, cafwyd yr ymweliad olaf gan Mr Andrew Settatee, mae Andrew wedi

bod yn ffyddlon iawn gyda'i ymweliadau â'r ysgol wrth weithio i gynllun EFE (Efengyl i Fro'r Eco). Diolch o galon a dymunwn y gorau iddo yn ei swydd yn ardal Llŷn ac Eifionydd. Bydd colled ar ei ôl.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Rhagfyr oedd Mrs Dilys Williams gyda rhif 25. Llongyfarchiadau. Diolch i bawb am gefnogi'r bêl bonws yn ystod 2016. Pob lwc i bawb yn 2017!

Croeso yn ôl i'r teuluoedd i'w cartrefi yn Bryn Tirion wedi iddynt orfod symud allan er mwyn cael adnewyddu'r tai. Mae'n rhaid dweud bod y tai yn edrych yn dda er gwaethaf y fath amser a gymerwyd i orffen y gwaith!!

Dymuna Victor a'r teulu ddiolch i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am y cymorth a gawsant, ac hefyd i'r cymdogion yn Deiniolen am y croeso a gafwyd tra roeddent yn byw yno dros dro.

Gwellhad - Dymunwn wellhad buan i bawb yn y pentref sydd ddim wedi bod yn teimlo'n dda yn ddiweddar.

Pwyllgor Neuadd Dymunir diolch i bawb a gymerodd ran yn 'Dathlu'r Nadolig' ac i'r nifer dda o rieni a ffrindiau am gefnogi. Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn ag Ann a'r teulu o golli chwaer a ffrind agos. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol nos Lun, Ionawr 30ain yn yr Ystafell Gymuned am 7.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a'r enillwyr yw Janice Jones, Perthi ac Ann Ifans, Sycharth.

Dymunir atgoffa aelodau'r Clwb Cant ei bod hi'n amser adnewyddu'r aelodaeth. Croesewir aelodau newydd - y mae'n hwb ariannol sylweddol tuag at reoli'r Neuadd Gymuned.

Eisteddfod Bentref Cynhelir cyfarfod i drafod Eisteddfod Bentref 2017 am 7.30 - yn dilyn

Cyfarfod Blynyddol y Neuadd Gymuned. Buasem yn hynod falch o bresenoldeb rhieni ifanc y pentref neu unrhyw un sydd â diddordeb i gynnig cyfle i'n ieuentid fagu hyder ar lwyfan a mwynhau yr amrywiol gystadlaethau.

Budreddi Baw Cŵn Yn dilyn nifer fawr o gwynion ynghylch baw cŵn o gwmpas y pentref, trefnwyd cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod y broblem. Awgrymwyd gofyn am gefnogaeth y pentrefwyr i geisio delio â'r broblem a chadw llygad barcud ar berchnogion cŵn. Cydnabyddir, wrth gwrs, fod rhai perchnogion yn cario bagiau baw cŵn ac yn codi'r baw a'i roi yn y bin baw cŵn wrth ymyl Llys y Gwynt a Bryn Eglwys. Gellir cael y bagiau baw gan y Cynghorydd Hefin Williams ac maent ar gael yn rhad ym mhob Archfarchnad erbyn hyn.

Os gwelir unrhyw un yn troseddu gellir rhoi gwybodaeth i'r Warden Cŵn yng Nghyngor Gwynedd. Ystyrir rhoi camerâu a phosteri ac atgoffir y gellir dirwyo rhai sy'n troseddu o £100 - £1,000. Y mae'r apêl yma yn hynod bwysig er lles iechyd ein plant. Y mae baw cŵn yn gallu achosi afiechyd 'Toxocariasis', gan effeithio'r llygaid a pheri dallineb Felly erfynnir ar i bob perchennog ci godi'r baw a'i roi yn y bag a'i roi yn y bin baw cŵn pwrpasol. Diolch.

Diolch Dymuna Teulu Wenllys, Llanrug ac Ann a Dafydd a'r teulu, Sycharth, ddiolch o galon am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a rhoddion tuag at Apêl Macmillan yn dilyn eu profedigaeth annisgwyl ar drothwy'r Nadolig o golli Mary, a hynny naw mis wedi colli ei gŵr, Meurig.

Bu'n fam annwyl i Dwynwen, Tudur a Gareth a'r teuluoedd a chwaer hwyliog i Ann a'r diweddar Ernest a Gwilym, a ffrind i lawer.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

ARVONIA

- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvonias.co.uk

Mae Arron Hughes o Fethel yn ddiweddar wedi dechrau gweithio i gwmni Orca, cwmni sydd yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf UAV, neu "drones" er mwyn mapio, creu fideos a thirfesur. Mae hefyd yn gerddor a dyma'r Eco'n darganfod mwy am y gwaith diddorol a'r cyfuniad o gyfansoddi a ffilmio.

"Mae Orca wedi ei leoli yn Star, Sir Fôn ac rydym yn gweithio yn agos iawn efo busnesau lleol a chenedlaethol, prifysgolion a chwsmeriaid preifat. Mae'r gwaith yn wahanol bob dydd, rhai dyddiau mi fyddan ni gyd yn y swyddfa, dyddiau eraill byddwn allan ar leoliad yn gweithio a rhannu'r dyletswyddau.

Mapio a thirfesur ydi'r rhan fwyaf o'r gwaith ar y funud i gwmnïau adeiladu sydd hefo lleoliadau wedi eu gwasgaru dros Sir Fôn a Gwynedd. Mae'r broses yma yn un diddorol iawn, lle mae'r "drone" yn hedfan uwchben y lleoliad a thynnu lluniau, tra rydym ni yn cerdded o gwmpas y safle yn recordio lleoliad "GPS" y manau sydd eu hangen. Rydym hefyd gweithio yn agos iawn efo Prifysgol Bangor ar y funud wrth recordio proses adeiladu'r parc gwyddoniaeth newydd "M-SParc" draw yng Ngaerwen. Rydym yn ymweld ar safle ar ddyddiau gwahanol a hedfan y "drone" yn ffilmio'r gwaith adeiladu i ddangos y datblygiadau.



Mae gweithio efo Orca yn brofiad ffantastig a dwi wir yn teimlo'n lwcus i gael y cyfle i wneud y pethau dwi'n ei fwynhau mewn bywyd fel swydd. Mae ffotograffiaeth a fideo yn rhan fawr o'r busnes a dyma oedd un o'r pethau a dynnodd fy sylw at y cwmni pan o'n i'n chwilio am swydd. Doeddwn i ddim yn gyfarwydd iawn efo'u gwaith ond roedd pob dim yn swnio mor ddiddorol a newydd i'r ardal yma. Ers cychwyn gweithio yma rwyf wedi cael y cyfle i gyfuno gwaith gyda rhan arall o fy mywyd, sef cerddoriaeth. Rwyf wedi bod yn ysgrifennu a chynhyrchu cerddoriaeth ers blyneddodded erbyn hyn, ac yn rhyddhau pethau'n gyson o dan yr enw "Tusk". Ond mae cael y cyfle i gyfansoddi rhywbeth hollol newydd i fynd efo fideos yn broses hollol newydd ond mor foddhaol, cyfle gwych i mi gael rhoi stamp cerddorol fy hun ar yr hyn a dwi yn ei greu yn weledol.

Fel mae'r byd yn newid, mae technoleg yn datblygu'n gyflym ac mae "drones" yn bendant yma i aros. Gobeithio y byddwn yn tynnu lluniau a ffilmio'n ardaloedd bendigedig ni am flynyddoedd i ddod."




Gwyl Fwyd Caernarfon: Beth am wirfoddoli?

Wnes di fwynhau Gŵyl Fwyd Caernarfon y llynedd? Eisiau ychwanegu at dy CV? Eisiau bwyta lot o fwyd blasus yn yr haul? Er nad yw'n bosib gaddo diwrnod braf arall, dyma'r cyfle perffaith. Mae Gŵyl Fwyd Caernarfon yn chwilio am wirfoddolwyr o bob oedran i helpu ar ddiwrnod yr ŵyl ar ddydd Sadwrn, Mai 13, 2017. Roedd yr ŵyl gyntaf y llynedd yn llwyddiant ysgubol gan ddenu o gwmpas 10,000 o bobl i'r dre gyda rhai o'r stonidwyr yn gwerthu pob tamaid!

Hyd yn oed am awr neu ddwy, dyma'r cyfle i ti, dy ffrindiau a theulu fod yn rhan o un o uchafbwyntiau'r gwanwyn. Am fwy o wybodaeth neu i ddangos diddordeb, e-bostia katherineowen71@yahoo.co.uk

Os wyt ti eisiau cyfrannu i'r ŵyl ond ddim awydd gwirfoddoli, beth am fynd i un o'r digwyddiadau codi arian?

- Chwefror 17 - Noson Cystadleuaeth Cyri yn Feed my Lambs
 - Mawrth 8 - Noson Cinio Gala Gŵyl Fwyd Caernarfon 2017
 - Mai 6 - Taith Trên Stêm i Ganolfan y Gweilch ym Mhont Croesor
 - Mai 12 - Noson Sdwsh Coginio yn Galeri
- Mae mwy o wybodaeth am y cwbl ar www.gwylfwydcaernarfon.cymru



Mae'r ddau frawd o Lanberis, Iwan a Hywel Pitts, yn recordio a chyflwyno podcast o'r enw Podpeth. Dyma'r Eco'n mynd i ddysgu mwy:

Pryd wnaeth Podpeth ddechrau a beth oedd y rheswm dros ddechrau'r podcast?

Iwan: Dwi'n meddwl bod ni wedi dechrau o ddi'fry ni hwyr yn 2015? Hywel: O ddi'fry, do, sicr. Cyn hynna oedd o ddim ond yn 'malu cacu'.

Iwan: Âi, pam dechrau podcast Cymraeg? Achos o'r diffyg? Dim ond am 'laff'? I gael plattform i ddiwylliant amgen Cymraeg? Er mwyn cael esgus i siarad efo gwesteion diddorol?

Hywel: Rheina i gyd.

Mae'r ddau ohonoch yn rhyw fath o ddigrifwyr; Hywel yn perfformio caneuon doniol ac Iwan yn actio Gareth yr orangutan ar Y Lle [ydy'n ni'n cael dweud hyn?!]. Ydy'r ochr digri'n ymddangos ar Podpeth?

Iwan: Basa chdi ddim yn clywed Dewi Llwyd yn dynwared Arnold Schwarzenegger, neu Gari Owen yn cyhuddo Rhydian (X Factor) o fod yn 'cyborg' albino. A hyd yn oed pan 'rydan ni'n cael gwestai - o Yws Gwynedd i Nici Beech - mae'r sgwrs yn troi at bethau annisgwyl, fel cwffio neu 'conspiracies' am bobl genau-goeg.

Hywel: Ydyn nhw'n cael dweud 'na chdi ydy Gareth?

Iwan: Dim yn swyddogol, ond dwi'n deud pob wythnos ar Podpeth, felly os ydi pawb yn cadw fo i chi'ch hunain fydd o'n iawn.

Fel brodyr, ydy'n anodd neu hawdd gweithio gyda'ch gilydd?

Hywel: Hawdd.

Beth ydy'r math o bethau sy'n cael eu trafod mewn podcast Podpeth arferol?

Iwan: Pynciau 'go-to' ni ydi newyddion mawr yr wythnos, a syniadau am podlediadau gwell 'da ni isio pobl ddechrau. Mae'r syniadau yn themâu, gan taw'r unig segment rheolaidd ydi 'SyniaDad'...

Hywel: Sef segment lle mae Dad yn cynnig syniadau i ni basio 'mlaen at S4C... Mae o'n fwy doniol nag y mae o'n swnio.

Lle all rhywun wrando neu ddarganfod mwy am Podpeth?

@Podpeth ar Twitter/Facebook/YouTube, neu chwiliwch am "Podpeth" ar iTunes.

Sefydliad y Merched Nos Iau, Rhagfyr 15fed, dathlodd y gangen leol eu Nadolig gyda chinio yn y Caban. Cafwyd noson gwerth chweil gydag arlwy ardderchog a fwynhawyd yn fawr gan bawb.

Cynhelir Cyfarfod Blyneddol Ffederasiwn Sefydliad y Merched yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, ar Chwefror y 4ydd am 2 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at gyfarfod Chwefror o'r gangen leol nos Iau y 16eg yng nghwmni Dei Tomos.

Gwellhad Buan Dyna yw ein dymuniad i David Mullen, 2 Trem Eilian, yn dilyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Frenhinol Lerpwl.

Yr Eglwys Bresbyteriaid

Gwasanaethau

Bnawn Sul, Rhagfyr 18fed, dathlwyd y Nadolig pryd y daeth nifer dda ynghyd i'r ystafell addoli wedi ei haddurno ac i awyrgylch arbennig goleuadau canhwylau'r Adfent. Trefnwyd y gwasanaeth gan Gwyn Hefin Jones ac ef, ynghyd ag Ifanwy Jones ac Einir Gwyn, gyflwynodd y neges agoriadol ar y thema 'Crist y Ffoadur'. Cafwyd cyfraniad gan Pat Jones a Carol Houston wedi ei seilio ar y bugeiliaid yn hanes y geni. Argraffiadau am gerddoriaeth yr Adfent mewn datganiad o ddarnau organ a brofwyd yn Eglwys Gadeiriol Birmingham oedd cynnwys cyfraniad Lowri Prys Roberts, gyda darlleniadau o'r Ysgrythur perthnasol i'r datganiadau a Dwynwen Williams yn cyflwyno'r garol 'Veni Emmanuel' ar y thema 'Duw gyda ni' i gloi. Unodd Dafydd Ellis, Robert J. Williams ac Irfon Ellis yn driawd i ganu carol a chafwyd darlleniad o Efengyl Mathew gan Robert John Williams. Adroddodd Dafydd Ellis am daith y doethion o'r dwyrain drwy Asyria lle buont yn foddion, yn ôl traddodiad, i ryddhau y gaethferch fel ag y cyfeirir ati ym Maled y Pedwar Brenin gan Cynan, gan gysylltu'r hanes â'r dioddefaint presennol yn Aleppo. Cafwyd myfyrdod pwrpasol ar y Goleuni ddaeth i'r Byd gan ein Gweinidog, y Parch Marcus Robinson. Cyflwynwyd a chanwyd nifer o garolau cynulleidfaol yn ystod y gwasanaeth. Roedd y casgliad a wnaed yn mynd tuag at waith Cymorth Cristnogol. Wedi'r oedfa cafodd pawb gyfle i gymdeithasu uwch pryd Nadoligaidd ardderchog, fel arfer, yng nghaffi Caban a rhannu cyfarchion cyn ymadael.

Nos Sul, Ionawr 8fed, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn wedi ei drefnu gan Lowri Prys Roberts. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Gwyn Hefin Jones gyda darlleniad o'r Ysgrythur 'Gofal a Phryder' ynghyd ag emynau a gweddi gan Ifanwy Jones ac Einir Gwyn. Cyflwynodd Dafydd Ellis ei neges dechrau blwyddyn gyda detholiad o Lyfr y Salmau gydag argraffiadau am y traddodiad prin hwn sy'n aros o waddol yr wythnos lawn o Gyfarfodydd Gweddiâu a gynhelid ymhob bro. Seiliodd Lowri Prys Roberts ei neges ar ddiwyg seciwlar mwyafrif cardiaid Gwyl y Nadolig i arwain at y rhai yn darlunio neges Gwyl Yr Ystwyll, a ddatlwyd ar Ionawr 6ed, - neges o oleuni i fyd tywyll ar ddechrau blwyddyn arall. Terfynwyd gyda chyfraniad gan Robert John Williams ar y thema 'Crist yn yr hwn y'm bodlonwyd'.

Oedfaon Chwefror am 5 yr hwyr

- 5: Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)
- 12: Canon Idris Thomas, Deiniolen
- 19: Oedfa dan nawdd yr aelodau
- 26: Parch Glenys Jones, Pwllheli

Blwyddyn Newydd A ninnau ar ddechrau blwyddyn newydd arall, dymunwn fel ardal Flwyddyn Newydd Dda i holl ddarlennwyr yr Eco. Mae rhywun yn gorfod gofyn i ble yr aeth 2016 mor sydyn. Gobeithio am flwyddyn newydd well i'r rhai na chafodd flwyddyn rhy dda y llynedd. Bu cryn newidiadau yn ystod llynedd, pryd y cafodd llawer un eu synnu at rai o'r pethau a ddigwyddodd, er gwell neu er gwaeth, amser a ddengys!

Marwolaeth Ar fore Mawrth, 6ed o Ragfyr, daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Mrs Margaret Cynfi Griffith yn 83 mlwydd oed. Bu farw yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun ychydig funudau cyn dydd ei phen-blwydd. Bu yn wael ar hyd y flwyddyn ac ni welwyd hi yn y capel ar ôl mis Mawrth.

Mae yn rhaid imi gyfaddef nad oeddwn yn gwybod rhyw lawer am Margaret hyd nes i Eglwys MC Dinorwig gau ac i mi fynd yn aelod yn Eglwys Cefn y Waun. Cefais groeso mawr ganddi yn yr eglwys ple yr oedd Margaret wedi bod yn flaenor ers 1992. Credaf iddi gario ei swydd yn anrhydeddus iawn ac yn hynod o gall drwy, yn aml iawn, gadw yn ddistaw pryd y buasai wedi gallu gwneud dipyn o stŵr. Deallaf iddi fod wedi rhoi llawer o wasanaeth i'r eglwys cyn imi ddod i'w hadnabod yn iawn.

Yn y flwyddyn 2011 cefais y fraint o fod yn gyd-flaenor â hi. Yr oedd yn fraint cael cydweithio hefo hi. A chydweithio a wnaeth hi hefo fi gan mai dim ond y ni ein dwy oedd yn flaenoriaid erbyn hyn. Os byddai rhyw newid byddai bob amser yn cysylltu hefo fi, yr oedd am gael fy marn i cyn gwneud dim newid ac, yn amlach na pheidio, yr oeddwn yn cydweld â hi. Cefais flynyddoedd hapus hefo hi.

Bu yn gofalu am nifer fawr o flynyddoedd am gael gweinidog i wasanaethu ar y Sul ac yr oedd ei llwyddiant i'w weld yn amlwg oherwydd ychydig iawn o Suliau a gawsom heb genad. O brofiad erbyn hyn, yr wyf yn sylweddoli nad tasg hawdd oedd hyn o gwbl.

Y newid mwyaf a ddaeth i Margaret oedd pan fu i Eglwys Cefn y Waun gau. Bu hyn yn loes calon iddi ac yn dipyn o boendod. Roedd Cefn y Waun fel ail gartref iddi, dyma lle y bu iddi gael ei bedyddio, ei dwyn i fyny fel plentyn, yna cael ei derbyn yn gyflawn aelod o'r Eglwys ac yna yn flaenor. Byddai yn mynychu y capel dair gwaith y Sul ar gweithgareddau yn ystod yr wythnos ac, wrth gwrs, doedd dim angen car gan ei bod yn gallu cerdded yno.

Wedi symud i Ebeneser rhaid oedd wrth gar, a chan fod yn rhaid i minnau symud hefyd, dan gwyno ein dwy, bu Margaret yn mynd a dod hefo fi a mawr oedd ei diolch a'i gwerthfawrogiad o gael ei chario. Doedd fiw inni sôn am Gefn y Waun wedyn, roedd yn hawdd iawn gweld fod Margaret wedi cael ei brifo'n arw.

Mae colli Margaret wedi gadael andros o fwllch i ni yn yr Eglwys. Bwlch na chaiff fyth ei lenwi, ond y cyfan a allwn ei wneud fel aelodau o eglwys Crist ydyw gwneud yr hyn a allwn a rhoi ein hysgwydd dan y baich. Gallaf ddweud yn awr na fydd hi ddim yn rhwydd, ond os na wnawn ni fel aelodau hynny, bydd yr esiampl a roddodd Margaret i ni yn mynd yn ofer. Diolch i Dduw am gael y fraint o adnabod gwraig fel Margaret a chael ei benthg cyhyd. Aelod gwerth ei chael a'i hadnabod ydoedd.

Bu hefyd yn fam ac yn nain ofalus. Colled enfawr i Emyr, Iola a Glyn a'u teuluoedd. Byddai yn falch o'u llwyddiant bob amser ac wedi hynny yn llwyddiant eu plant.

Bu'r gwasanaeth i gofio am Margaret ar ddydd Llun, 12fed o Ragfyr yn Eglwys Crist Llandinorwig pryd y gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parchedig John Pritchard a thalwyd teyrnged iddi gan ei chyn-weinidog, y Parchedig Trefor Lewis. Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym Mynwent Macpelah, Deiniolen.

Cydymdeimlwn yn fawr hefo Emyr, Iola a Glyn a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth, gan obeithio y daw llawer o atgofion melys yn ôl i'r cof.

Bydd enw Margaret mewn cof am lawer blwyddyn i ddod. Diolch i Dduw am gael ei benthg.

Cydymdeimlwn fel ardal hefo Mr a Mrs Colin Humphreys, Gwêl y Wyddfa, yn eu profedigaeth. Bu farw tad Colin ddiwrnod Nadolig yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd mae Mererid a Tomos wedi colli taid. Gobeithio y bydd i chwi fel teulu gael nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma, a boed i chi gael Duw yn agos.

Cofion Anfonwn ein cofion at Mrs Megan Morris ym Mhlas Garnedd, Llanberis. Hefyd rwyf ar ddeall bod rhai o'r ardal wedi bod yn yr ysbyty a llawer yn cwyno gartref. Dymunwn fel ardal adferiad llwyr a buan i chi i gyd, fel pan ddaw y gwanwyn y bydd modd ei fwynhau.



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Pryd oedd Coed y Ddôl?



A yw hwn yn llan cynnar o stryd yng Nghoed y Ddôl?

Cewch roi'r bai i gyd (neu'r diolch!) ar Rhys Mwyn. Cysylltodd yn ddiweddar i holi am rai o enwau strydoedd Llanberis cyn lansiad ei lyfr diweddaraf yn Y Ffestri. (Roedd yr "Eco" eisoes wedi mynd i'r wasg cyn y lansiad: mwy am hynny yn y rhifyn nesaf). Dyma fynd ati felly i geisio darganfod pryd yn union y dechreuwyd adeiladu y rhesi tai ym mhen gogledd-orllewinol y pentref presennol; tai a adeiladwyd bron yn gyfangwbl ar dir yn perthyn i Ymddiriedolwyr Tlodion Rhuthun.

Mae cynllun cynnar ar gael yn dyddio o 1851 sy'n dangos nad oedd fawr ddim tai yn yr ardal ble mae pentref presennol Llanberis. Ar y cynllun hwnnw, dangosir y Dolbadarn Inn, fferm Cae'r Frân a Thŷ Newydd. Mae'r tir isel ar lannau Llyn Padarn rhwng y tri lle hwn yn cael ei alw'n Ddôl Tŷ Du, sy'n awgrymu mai eiddo Ymddiriedolwyr Tlodion Rhuthun oedd y cyfan.

Yn fuan wedi dyddiad y cynllun hwn daeth dau gynllun uchelgeisiol i ddatblygu'r ardal ben-ben a'i gilydd. Cafodd Thomas Field, gŵr busnes o Leith, Yr Alban, a John Lane o Hafod, Llanrug; y ddau yn fasnachwyr a rheolwyr chwareli llechi, hawl i adeiladu ar Ddôl Tŷ Du. Pe bai'r cynllun gwreiddiol a fwriadai'r ddau hyn wedi ei wireddu, yna byddai Llanberis yn bentref gwahanol iawn heddiw. Roedd eu hawl adeiladu yn ymestyn o Fryn Eglwys ar hyd glannau'r llyn draw at safle cae peldroed presennol Llanberis. Eu bwriad oedd adeiladu tua deg ar hugain o'r hyn a elwir ganddynt yn 'villa': tai unigol gyda gerddi sylwedol, a llain o dir wedi ei neilltuo ar gyfer adeiladu eglwys newydd. Ceisiwch ddechrau rhyw hanner dwsin o adeiladau o'r un maint ar'r Heights, gyda gerddi o'u hamgylch, yn sefyll ar lan y llyn. Byddai gweddill y 'villas' ar ochr ddeheuol y Stryd Fawr, ac yn llenwi'r tir i fyny'r llethrau hyd at Ffordd Tŷ Du. Patrwm tai gwahanol iawn i'r hyn sydd yma heddiw! Ond ni wireddwyd y cynllun – ac nid oherwydd diffyg arian chwaith.

Roedd cynllun arall yn cystadlu am yr union dir, sef Cwmni Rheilffordd Caernarfon a Llanberis, oedd yn bwriadu dod ar rheilffordd i mewn i'r ardal ar hyd Dôl Tŷ Du. Ac er i Field a Lane fynd i gyfraith, y Cwmni Rheilffordd a orfu. Er hynny, derbyniodd y ddau iawndal, a chafwyd datblygu o fath gwahanol, sef tai teras. Mae enwau'r ddau wedi eu cadw yn Field Terrace a Lane Terrace.

Gallwn fod yn weddol sicr felly, nad oedd tai yn y rhan hon o Lanberis yn 1851. Ac o edrych ar Gyfrifiad 1861, nid yw'n ymddangos fod fawr o ddatblygu wedi digwydd erbyn hyn chwaith. Yn 1871 mae'r sefyllfa'n wahanol. Mae dalen flaen y Cyfrifiad yn nodi mai yma mae'r "Village of Coed y Ddôl", a cheir rhesi o dai teras, yn cynnwys Frondeg, Eilian Terrace, Llainwen, Ogwen Terrace, Snowdon Terrace, Penygraig, Charlott Street (sic), Water Street, Well Street,



'Villa' arfaethedig Field a Lane.

Turner Street, Goodman Street, Cambria Street, Yankey Street (sic), Rock Terrace, London Terrace, Snowdon Street a'r ddwy stryd a enwyd ar ol Field a Lane. Dyna gynnydd sylwedol o fewn degawd, a gwaith adeiladu a gyflogai nifer helaeth o weithwyr, yn enwedig seiri meini a seiri coed.

Rhwng 1861 ac 1871 roedd 'pentref' Coed y Ddôl wedi ei sefydlu, ond doedd amgylchiadau byw y trigolion ddim yn ddelweddol o bell ffordd, er eu bod yn byw mewn tai newydd sbon. Y brif broblem oedd carthffosiaeth, neu'n hytrach ddiffyg hynny! Mae'n ymddangos fod holl garthion a budreddi'r pentref yn cael eu gwagio i bwl ar y safle – mae'n anodd iawn penderfynu ble'n union roedd ei leoliad – a bod afiechydon ac arogleuon yn effeithio'n ddirfawr ar y trigolion druan. Gŵr o'r enw T. Thomas oedd goruchwyliwr y tir ar ran Ymddiriedolwyr Tlodion Rhuthun, ac yr oedd ef a datblygwr rhan o'r safle, a enwir fel D.W. Roberts, yn pwyso ar berchnogion y tir i agor ffos o'r pwl a gwaredu'r budreddi i lawr y llethr i Llyn Padarn! Gwrthodai'r Ymddiriedolwyr wneud hyn gan honni mai cyfrifoldeb y datblygwyr ar y safle oedd talu'r gost. Ond mewn achos llys yng Nghaernarfon ar ddechrau Rhagfyr 1866, penderfynwyd mai cyfrifoldeb yr Ymddiriedolwyr oedd agor ffosydd addas. Roedd y brif gwter yn rhedeg o'r llyn i gyfeiriad Coed y Ddôl ac yn fforchi'n ddwy yn uwch i fyny. Uwchben y ddwy fforch roedd llyn o ddwr yn cael ei Gronni (weithiau fe'i gelwir yn ddyfrgist). Byddai digon o ddwr yn y cronfeydd hyn i lanhau'r gwter a chario'r holl fudreddi i lawr i'r llyn, ac wrth gwrs, roedd uchder y cronfeydd yn golygu fod llif y dwr yn ddigon nerthol. Amcangyfrifwyd mai tua £300 fyddai'r gost o wneud hyn – ar yr amod fod perchennog pob tŷ ym mhentref Coed y Ddôl yn agor eu cwter eu hunain i gysylltu â'r brif gwter.

Mae'n amlwg felly fod yr holl ardal yn cael ei hadnabod fel Coed y Ddôl, ac oherwydd fod gwaith adeiladu ar gael a gwaith yn y chwareli ac ar y rheilffordd, tyrodd teuluoedd i'r ardal a chynnyddodd y boblogaeth.

Mae enwau rhai o'r datblygwyr ar gael: D.W. Roberts (a boenai am waredu budreddi), John G. Jones, William Thomas (adeiladwr o Gaernarfon) a phartneriaeth William Hughes a John Roberts (saer maen a saer coed) y ddau o Fethesda. Tybed ai'r ddau hyn oedd yn gyfrifol am adeiladu Ogwen Terrace – a Bethesda Street yn ddiweddarach? (Oes/oedd yna Llanberis Street ym Methesda?).

Ond roedd problemau eraill hefyd. Roedd Coed y Ddôl yn cael ei hystyried yn ardal dlawd a difreintiedig, a cheir enghreifftiau o ambell un yn ceisio dadgysylltu ei hun â'r rhan hon o Lanberis. Ac am ba hyd y parhaodd yr enw Coed y Ddôl fel enw 'swyddogol'? Mwy am hynny yn rhifyn Mawrth.

Cymdeithas Hanes Bro'r Eco

Tybed faint sy'n cofio bodolaeth y Gymdeithas Hanes? Yn ddiweddar clywais son am ail-eni'r Gymdeithas, gan fod cymdeithasau hanes yn bodoli mewn ardaloedd eraill. Mae Cymdeithas Hanes Dyffryn Nantlle a Chymdeithas Hanes y Tair Llan yn agos iawn i'n dalgylch ni,

ac yn hynod boblogaidd. Tybed a oes diddordeb yma i ail-afael ynddi? Os oes rhywrai a diddordeb, ac yn fodlon cynnig cymorth ymarferol, cysylltwch. Efallai y gellir trefnu rhaglen ar gyfer gaaf 2017-18.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com



Ysgol Brynrefail



Eisteddfod Ysgol 2016



Eisteddfod Ysgol 2016



Eisteddfod Ysgol 2016

Pêl-Rwyd Gogledd Urdd (ffeinal)

16 ysgol yn cystadlu
 Top y grŵp - curo Ysgol Maer
 Cyrraedd y rownd gyn derfyn
 Cyfartal llawn amser
 Cyfartal ar ol 2 x amser ychwaith
 Colli ar 'golden goal' - Genethol
 dda.
 Canlyniad y gem bêl-rwyd ym
 Dan 14 (bl 8 a 9)
 Brynrefail 25 - 4 Dyffryn Ogwr





d Cymru yr

s Garmon (Pencampwyr Cymru!)
ol v Ysgol Alun
ranegol
nod wedi chwarae'n arbennig o
erbyn Dyffryn Ogwen -
ven



**Canlyniadau Trawsgwlad
(cystadleuaeth Ysgolion Arfon)**

Ysgol Brynrefai - **1af** (ysgol orau'r diwrnod!)

8 cyntaf ym mhob ras drwodd i
ffeinal Eryri Chwefror 15fed yn Nolgellau
(cynrychioli Ysgolion Arfon)

Genethod Bl 7

- Efa Baines 1af
- Mabli Baines 4ydd
- Chloe Owen 7fed

Bechgyn Bl 7

- Cai Moss 4ydd

Genethod Bl 8 a 9

- Abbi Parkinson 4ydd
- Georgia Parkinson 5ed
- Natalie Meek 7fed

Bechgyn 8 a 9

- Cai Llwyd Jones 6ed
- Celt Moss 9fed
- Huw Jones 10fed

Genethod 10 a 11

- Catrin Donnelly - anaf ond mynd drwodd
- Catrin Smith 6ed
- Cora de Silva 9fed

Bechgyn 10 a 11

- Callum O'Donnell 3ydd
- Aled Williams 4ydd
- Thomas Collins 5ed
- Huw Gwynn 7fed
- Cai Edwards 8fed

Bechgyn 6ed

- Robin Williams 3ydd



Trawsgwlad



Trawsgwlad



Trawsgwlad



Trawsgwlad



Tanwen Mair Fretwell

Llongyfarchiadau

Mae y 'Little Princess Trust' yn gwneud wigiau ar gyfer plant sydd wedi colli eu gwallt drwy waeledd a'r driniaeth gas maent yn ei dderbyn. Roedd Tanwen Mair Fretwell, 3 Disgwylfa, wedi meddwl am y plant bach yma ac mi benderfynodd dorri 8 modfedd o'i gwallt a'i yrru i'r 'Princess Trust'.

Da iawn ti, Tanwen. Caredig iawn.

Capely Rhos

- Oedfaon mis Chwefror
- 5: Y Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson
- 12: Y Parch Dafydd Hughes
- 19: Y Gweinidog
- 26: Oedfa Ieuentid

Diolch i'r aelodau am eu rhan yn y cyfarfod gweddi ddechrau'r flwyddyn. Cafwyd oedfa fendithiol iawn wedi ei threfnu gan Mrs Megan Williams.

Babis Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Robin ac Evelyn, Glan Gors, Ffordd Glanffynnon, ar ddod yn daid a nain i Eban Dafydd, mab bychan Ceri ac Ifan. Llongyfarchiadau i Hen Daid a Nain hefyd, sef John a Menna Williams, Minffordd. Pob bendith i chi i gyd.

Hefyd mae Gareth a Jennifer Thomas, Stad Glanffynnon, wedi dod yn daid a nain eto i Eban Ynyr, mab bach Bryn a Ceri, brawd i Seren Celyn a gorwyres i Mrs Eirlys Williams, Deiniolen.

Dymuna Gwyn, Bod Awel, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau a'r arian a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 80 oed. Hefyd diolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad trwy ymweliadau, galwadau ffôn ac arian at Alzheimers a dderbyniodd ar ôl colli brawd annwyl, sef Tom Alun Davies.

Profedigaethau

Cydymdeimlwn â Mrs Gwenda Thomas, Bro Rhyddallt, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Emrys Hughes, Cwm y Glo gynt. Yn dawel yn Ysbyty Eryri ar Ragfyr 21ain fe fu Trevor John Price Davies farw yn 75 mlwydd oed. Roedd yn byw yn Hendy, Muriau, Caernarfon ond fe'i magwyd yn 17 Glanmoelyn. Roedd yn cael ei adnabod yn lleol ac ym myd y lorïau fel 'Cannonball'. Gŵr i Heather a thad Noel a'i wraig, Karen, a thad Llion a Peris. Cydymdeimlwn yn arw â Edwin, Gwyneth a John, ei frodyr a'i chwaer hefyd. Derbynnir rhoddion at ward Peblog, Ysbyty Eryri gyda diolch am y gofal a dderbyniodd yno.

Yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, yn 90 mlwydd oed bu farw Mr Eric Jones, Bontnewydd. Cydymdeimlwn yn fawr â'i ferch, Glenda, Goronwy, Gethin, Maldwyn, Siân, Elliw, Iolo ac Ifan a Berwyn. Yn ei ddydd roedd yn adnabyddus iawn fel gyrrwr bysiau Crosville ac wrth ei fodd

yn sôn am yr hen amser. Colled fawr i'r teulu.

Cydymdeimlwn hefyd ac Arnold a Christina, 4 Hafan Elan, yn dilyn eu profedigaeth yn colli brawd Arnold o Waenfawr oedd yn ei bumdegau cynnar.

Ar Ragfyr 10, yn dilyn gwaeledd hir a chreulon, bu farw Tom Alun Davies, gynt o Llys Alaw, Ffordd yr Orsaf, yn 77 mlwydd oed. Gŵr ffyddlon y ddiweddar Eileen, tad caredig Sharon ac Anwen, tad yng nghyfraith Brian a thaid cariadus Donna, Carl, Emma, Gavin a Gwennan. Hen daid Ana Fflur, Lois Elin a Cai Tomos. Brawd hoffus Gwyn a'r diweddar Arfon, Goronwy a Gwawr. Colled enfawr i chi fel teulu. Cydymdeimlwn â chi yn fawr.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Mildred, Rhes Crawia, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed yn ddiweddar. Deall eich bod wedi cael dathliad arbennig gyda'r teulu.

Babis Newydd

Llongyfarchiadau i Dylan a Jackie Hughes, Crawia, ar ddod yn Daid a Nain i Hari Jac, mab bach Gerallt a'i gymar. Pob dymuniad da i chi.

Brysiwch Wella Cofion annwyl a dymuniadau gorau am wellha buan i Mrs Kate Owen, 8 Hafan Elan. Brysiwch wella, Kate, rydym yn eich colli yn y cinio!

Diolchiadau Dymuna Sharon, Anwen a Brian, teulu Tom Alun Davies, Llys Alaw, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli tad, taid a hen daid. Diolch hefyd i'r

Parchedig Marcus Robinson am ei wasanaeth ar ddydd yr angladd ac i Mrs Ann Thomas am ei gwasanaeth wrth yr organ. Hefyd i'r ymgymerywyr, Mr Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, Llanberis. Diolch i bawb am y rhoddion ariannol, bydd £681.60 ym mynd at Gymdeithas Alzheimers.

Dymuniadau Gorau am wellhad llwyr a buan i Iona, merch Dafydd a Linda, Afon Rhos, sy'n byw yn ardal Abertawe. Mae Iona newydd dderbyn llawdriniaeth arbennig iawn ac mae cyfnod anodd o'i blaen gyda thriniaethau caled.

Fe ddymuna Dafydd, Linda a Lois ddiolch o galon i'r holl bentrefwyr am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd yn ystod yr amser anodd yma. Maent yn werthfawrogol iawn.

Diolch Dymuna Dwynwen, Tudur, Gareth a'r teulu, ynghyd ag Ann a'r teulu, ddiolch o galon am y cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn dilyn eu profedigaeth annisgwyl o golli mam, nain, chwaer, modryb a ffrind hwyliog, sef Mary, gwraig annwyl a hiraethus y diweddar Meurig. Bu'r llu cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau o gysur mawr i'r teulu ar drothwy'r Nadolig.

Dymunir diolch i Meinir o gwmni Meinir a Dylan Griffiths am y trefniadau trylwyr ac urddasol ac i'r Parchedig Marcus Robinson am y gwasanaeth teimladwy ar aelwyd Wenllys. Diolch diffuant i chi i gyd.

Plaid Cymru

- Enillwyr Clwb Cant Mis Ionawr 1..Meirwen Lloyd, Afallon
- 2..Vera Williams, Awelon

Profedigaeth Cydymdeimlwn yn fawr â theulu Mrs Delyth Hughes, Llys Elen, Ffordd yr Orsaf (Llanberis gynt) a fu farw yn 84 mlwydd oed. Nid oedd yn dda ers misoedd ond cyn hynny roedd wedi ymgartrefu yn Llys Elen ac yn aelod ffyddlon o'r criw yn Hafan Elan.

Cofiwn at Mair, Melfyn a'r teulu, Tal y Bont; Carys ac Aled a'u partneriaid a'r wyrion a'r wyresau. Colled fawr i chi fel teulu a'i ffrindiau oll.

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
 PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
 PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
 3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

Premier

Y Storfa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Dioddydd, Papurau Newydd,
 Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

Parhad LLANRUG

Merched y Wawr Nos Fawrth, Rhagfyr 10fed bu'r gangen yn dathlu'r Nadolig yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon. Diolchwyd i Nan am y trefniadau trylwyr ac am drefnu Cwis - Carys Wyn a Gwenda fu'n fuddugol. Llongyfarchwyd Olwen, Linda a Bethanne am eu gwaith Crefft yn Sioe Aeaf Llanelwedd a llongyfarchiadau arbennig i Bethanne ar ddod yn ail allan o 75 ymgeisydd ar lunio tylluan allan o unrhyw gyfrwng. Estynnwyd cydymdeimlad llwyr â Margaret a Geraint ar golli mam a mam yng nghyfraith annwyl. Cydymdeimlwyd hefyd â theulu Wenllys ac ag Ann a'r teulu o golli Mary yn annisgwyl ar drothwy'r Nadolig a hynny ond naw mis wedi colli ei gŵr, Meurig, cyn-ofalwr y Sefydliad Coffa.

Cyflwynir casgliad y noson i 'Heneiddio'n Dda'.

Nos Fawrth, Ionawr 10fed, estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Margaret, y Llywydd, a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda, llawn bendithion yn 2017 i bawb.

Gŵr gwadd y noson oedd John Dilwyn Williams o Archifdy Caernarfon gyda Hanes Lleol Plwyf Llanrug. Cychwynnodd gyda chwestiwn - 'Beth yw Hanes?' Ie, creu darlun, dehongli'r gorffennol yn seiliedig ar dystiolaeth sydd ar gael - atgofion pobl, delweddau, llun, ffilm a mapiau, ynghyd â chofnodion ysgrifenedig megis cardiau post, arteffactau a chreiriau archeolegwyr. Cafwyd gwybodaeth gyfoethog am blwyf Llanrug - Plwyf Sant Mihangel yn y Grug. Cafwyd manylion difyr am Blas Tirion gyda diadell o 1,000 o ddefaid, Mawnog Cefn Du, Llechi Glyn Rhonwy. Y plwyf gyda 90 o dai gyda 5 person i bob teulu. Cafwyd cronicleu am fedydd, priodasau ac angladdau yn dyddio'n ôl i 1818 - 1868. Difyr deall am fedd David Thomas - sef Dafydd Ddu Eryri a fu farw'n 63 mlwydd oed yn 1822 ac wedi'i gladdu ym mynwent y plwyf.

MARY 1938 – 2016

Yn annisgwyl ond yn dawel yn 78 mlwydd oed bu farw Mary fore Llun, Rhagfyr 5ed, yn ei chartref, Wenllys, Gwêl Fynydd. Yn ferch i'r diweddar Annie a Siôn, 7 Stryd Uchaf, Rhiwlas, a chwaer werthfawr i Ann a'r diweddar Ernest a Gwilym. Wedi gadael ysgol bu'n gweithio yn Fferyllfa Boots, Bangor, lle roedd ei brawd, Ernest, yn fferylllydd ar y pryd, gan wneud ffrindiau agos iawn ag Eirian o Star, Ynys Môn. Cyfarfu â Meurig yn Lôn Bach Awyr, cylchfan genod Rhiwlas, wedi oedfa'r Sul a bu i'r ddau briodi yng Nghapel Penuel, Pentir. Wedi ymgartrefu yn Llanrug, cawsant rodd o dri o blant, Dwynwen, Tudur a Gareth, a bu'r tri yn glod iddynt fel rhieni gofalus. Cawsant dair wyres, Ffion, Nia ac Alannah Mary a thri ?yr, Tomos, Jac a Llewelyn. Bu Mary am gyfnod yn gweithio yn Ffreutur Ysgol Brynrefail ac yna am flynyddoedd yn Fferyllfa Boots, Caernarfon, lle treuliodd amser hwyliog a chyfeillgar gyda'i chydweithwyr.

Meddai Mary ar nifer o ddoniau megis coginio, gwau, crosio, croes-bwytho ac arlunio. Byddai ei gardd yn Eden o ardd baradwysaidd ac edrychai ymlaen i weld yr adar yn nythu yn y bocsys adar. Mawr fu ei gofal o'r gath, Sgwbi, a ddeuai i'w gweld bob bore a nos. Cefnogai nifer o sefydliadau megis Merched y Wawr, Sefydliad y Merched a Clwb Caban a bu ar un adeg yn aelod o Gôr Clychau'r Grug. Mwynhâi gerdded llwybrau Llanrug gyda Meinir a Sheila - dwy ffrind ffyddlon ac arbennig iddi. Edrychai ymlaen at driplau Cliff a'r hwyl a gawsai hi a Meurig gyda'r criw hwyliog. Byddent yn ymweld yn wythnosol â Bae Colwyn a chyfarfod teulu Llysfaen, o ochr ei mam. Edrychai ymlaen yn eiddgar at fynd i Folkstone a Portsmouth i weld Tudur a Gareth a'r teulu a mawr fu gofal y ddau o deulu Dwynwen a Stephen yn y Felinheli. Bu Mary'n chwaer ofalus i Ann a'i chworydd yng nghyfraith, Gwyneth a Morfudd, a mawr fu ei diolch iddynt am y gofal a gafodd yn ystod salwch blin Meurig a hithau. Bu'r presenoldeb ddiwrnod ei hangladd yn dyst o'i chyfeillgarwch a'i charedigrwydd. Do, bu'r 'rhwyg o golli'r ddau' yn 2016 yn golled enfawr. Anodd bellach yw pasio heibio Wenllys.

Dangoswyd Map Degwm 1839 yn cronicle'r dreth ariannol ac eiddo Thomas Asheton Smith, Stad y Faenol. Difyr oedd olrhain hanes yr ysgolion, y capeli a'r llythyrdy. Bu'r adborth gan Menna i nifer o hanesion y pentref y tu hwnt o ddifyr hefyd. Diolchwyd i John Dilwyn gan Margaret am noson hynod o ddifyr ac addysgiadol.

Cafwyd cais gan Ysgol yr Hendre yn gofyn i'r aelodau a fuasant yn barod i helpu eto eleni hefo Caffi'r Urdd ar Fawrth 4ydd yn Ysgol Brynrefail. Roedd pawb yn unfrydol a cyn fwy na pharod i helpu. Y mae taflen yn gofyn am gyfraniadau ar gael. Y mae Pat a Julie yng ngofal y raffl i ennill carthen Melin Tregwynt gyda'r geiriau 'Dathlu'r Aur' arni ac mae ffurflenni melyn, sef 'Ffurflenni Archebu Nwyddau' gan Meirwen. Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars ar Fai 13eg. Pris y diwrnod £22 - arian erbyn Mawrth 29ain. Gofynnir i'r aelodau am syniadau erbyn mis nesaf ar sut y gall y gangen 'Ddathlu'r Aur'.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan deulu Wenllys ac Ann a Dafydd yn gwerthfawrogi'r llu cardiau, ymweliadau, galwadau ffôn a'r rhoddion tuag at apêl Macmillan yn dilyn eu profedigaeth lem o golli Mary. Diolchir am bresenoldeb nifer ohonoch ar ddiwrnod ei hangladd.

Tynnwyd raffl y noson a'r enillydd oedd Carys Wyn.

Mae Prifysgol Bangor wedi penderfynu cau eu gradd Archeoleg Sengl Cymraeg o 2017 - y Radd sy'n 8fed orau yn y D.U. Mae pryder ynghylch hyn a gellir cysylltu i ddangos gwrthwynebiad ar www.change.org/p/bangor-university-threat-to-archaeology.

Ar Chwefror 14eg edrychir ymlaen yn arw at gwmni Bedwyr Rees gyda'i hanesion difyr am ei antur ar hyd yr arfordir.

Colli Rhieni (Dic Jones)

Ddoe a hwy mor ddiwahân - eu bwthyn
A'i bethau mor ddiiddan;
Yn y tŷ, er gwres y tân
Cefais mai oer y cyfan
"Am annwyl fu, cu y cof."
Ann

Seindorf
Arian
Llanrug



Llanrug
Silver
Band

Cyngerdd Dydd Gwyl Dewi
St. David's Day Concert

Nos Wener 3ydd o Fawrth am 7.30 y.h.
Friday 3rd March @ 7.30pm

Neuadd Goffa Bethel
Bethel Village Hall



Oedolion £7 Adults
Plant £3 Children



Gyda / with
Band Ieuencid Llanrug
Cor Dref
a Chor Ysgol Bethel



Merched y Wawr



Merched Y Wawr Adroddiad Mis Rhagfyr

Ar nos Fercher, Rhagfyr 14eg cyfarfu aelodau'r gangen yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis am ein cinio Nadolig.

Pawb wedi mwynhau wledd a gawsoma digon o hwyl a sbri wrth gymdeithasu o amgylch y byrddau. Wrth gwrs roedd adloniant i ddilyn ac fe gawsom ambell agoriad llygad wrth wrando ar atebion i gwestiynau Sian a Sian! Pwy oedd yn adnabod ei ffrind orau?

Tair cwpwl gymerodd ran, Anita a Nan, Falmai a Mary a Glenys a Nora, ac yn wir Glenys a Nora oedd yn fuddugol, yn adnabod ei gilydd yn dda iawn!

Gwyneth (ein llywydd) oedd y cwisfeistres ac yn cadw pawb dan reolaeth, da iawn hi!

Noson ardderchog a phawb wedi mwynhau yn arw.

Cafwyd newyddion drwg i'r gangen o glywed am farwolaeth Mrs. Mair Jones, Mair Glan Gors fel ei hadnabyddwyd gan bawb.

Rydym fel cangen yn anfon ein cydymdeimlad tuag at y teulu i gyd. Collodd Mary W Jones ei brawd yng nghyfraith ac anfonwyd cydymdeimlad tuag at y teulu.

Deall hefyd fod wŷr Margaret Druce wedi ei gymeryd i'r ysbyty a dymunwn yn dda iddo.

I orffen, diolch i aelodau'r gangen am wneud côr i ddiddanu aelodau o Gymdeithas Lenyddol y pentref. Cafwyd noson ddiddan iawn i ddatlu'r Nadolig ganddynt hwy ac aelodau eraill o'r pentref.

Merched y Wawr Adroddiad Ionawr 2017

Dymunodd ein llywydd, Gwyneth, Flwyddyn Newydd Dda i bawb yng nghyfarfod cyntaf 2017

Yn anffodus dechreuwyd y flwyddyn gyda'r newyddion fod Anwylyd wedi colli ei gŵr Ieuan. anfonwn ein cydymdeimlad llwyr tuag ati a'r teulu.

Trist iawn hefyd o glywed fod cyn aelod, Margaret Williams wedi colli ei mab Philip ac anfonwn ein cydymdeimlad tuag ati hithau a'r teulu.

Deall fod mam Eirlys Williams yn yr ysbyty a gobeithio am adferiad buan iddi hi.

Dymuniadau gorau i Gwyneth Jones sydd wedi bod yn wael yn



ddiweddar ac edrychwn ymlaen at ei chael yn ôl yn ein plith yn fuan eto. Bydd Glenys ac Eirlys yn treulio diwrnod heb yngan gair i godi arian at Heneiddio'n Dda dan nawdd y pwyllgor anabl.

Derbyniwyd sic o £100.00 gan deulu y diweddar Mair Jones er cof amdani. Rydym yn ddiolchgar iawn am y cyfraniad hael yma. Cafwyd sawl cyhoeddiad, o fowlio deg, dominos, Gŵyl y Pum Rhanbarth, Nwyddau i Ddatlu'r Aur, Cinio'r Llywydd Cenedlaethol Rhanbarth y Gogledd a hel syniadau sut bydd y gangen yn dathlu'r aur.

Newyddion da!. Bu'r gangen yn llwyddiannus yn ei hymdrech i gael arian gan y Loteri Genedlaethol. Bydd y £970 yn dderbyniol iawn i gynnal ein gweithgareddau eleni. Da iawn wir!

Ein gwraig wadd oedd Gwenan Roberts, un o'm haelodau ni a chrosawyd hi yn gynnes iawn gan Gwyneth.

Un o Ddinmael ger Corwen ydy Gwenan ac yn un o bump o blant. Wedi cael ei haddysg yn Ysgol Dinas Bran Llangollen aeth ymlaen i goleg Therapydd Iaith yng Nghaerdydd.

Bu'n crwydro'r byd a threulio blwyddyn mewn Ysgol Arbennig yn yr India yn gwneud gwaith gwirfoddol gyda plant oedd angen ei sgiliau fel therapydd lleferydd iaith cyn dod i weithio am 36 mlynedd yng Gwynedd.

Mae bellach wedi ymgartrefu yma ym Methel ers 25 mlynedd a nawr mae wedi ymddeol o'i gwaith llawn amser ac yn mwynhau cwmni ei chi Wini!

Mae wrthi'n gwneud cwrs Ymwybyddiaeth Ofalgar a dyna oedd ei thema am y noson.

Gyntaf i gyd, y cwestiwn beth ydy Ymwybyddiaeth Ofalgar?

Wel, mae'n llawer o bethau yn ôl pob ymddangos. Yn dda at anhwylder cronic, sut mae myfyrdod yn gallu helpu hyn.

Prysurdeb bywyd, cymeryd amser i adnabod ein teimladau gyda myfyrdod.

Yn wir fe gawsom agoriad llygad o'r holl bethau sydd o help gyda'r Ymwybyddiaeth Ofalgar yma. Noson ddiddorol iawn.

Diolchwyd iddi gan Anita oedd yn amlwg wedi cael budd o'r sgwrs. Enillydd y raffl oedd Rhian



Ysgol Sul

Daeth nifer dda eto eleni i gefnogi'r plant yn cyflwyno stori'r geni. Cafwyd eitemau gan yr holl blant yn eu tro yn llefaru a chanu a braf oedd gweld y plant lleiaf yn gorymdeithio mewn ffordd naturiol o amgylch y Capel. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan y Gweinidog ar ddiwedd y gwasanaeth ac yna aeth pawb drwodd i'r Festri i fwynhau parti a chael ymweliad gan Siôn Corn.

LLONGYFARCHIADAU: I Gwenllian Angharad Williams, Llys Tecwyn ar ei llwyddiant arholiadol fel byd-wraig ym Mhrifysgol Bangor, a chan ddymuno'r gorau iddi yn ei swydd yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH: Dymuna Osian Hughes ddiolch i'w 'gwsmeriaid' am y sawl cildwrn a dderbyniodd dros y Nadolig. Osian yw bachgen 'rownd bapur newydd' y pentref.

DIOLCH: Dymuna Betty, Alwyn ac Arfon 29 Y Ddôl ddiolch o waelod calon i'r llu a gefnogodd mewn sawl ffordd yn eu colled ddi-symwth o ŵr, tad a thaid annwyl sef Owie Williams. Diolch i'r Parch. Rhys Llwyd, Capel Caersalem, Caernarfon ac i gwmni ymgymerywyr Roberts ac Owen, Penygroes. Fe gasglwyd £1200 er cof am Owie, ac fe drosglwyddir yr arian i Wasanaeth Ambiwlans Cymru.

DIOLCH: Yr un mor ddiffuant yw diolch Myfanwy, Aneurin, Myfyr a'u teuluoedd o golli yr annwyl Mair Jones, Cilan. Bu llu yn lleol a thu hwnt yn barod eu cymwynas ym misoedd olaf Mair. Diolch arbennig i Ganolfan Dydd Maesincla ac Uned Arenau Ysbyty Gwynedd. Galluogodd eu gofal i Mair allu byw adref yn annibynol dros gyfnod hir. Hefyd gofal wardiau Padarn yn Ysbyty Eryri a ward Hebog yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r Parchedigion Marcus Robinson, R.E. Hughes a'r organyddes Glenys Griffith am eu gwasanaeth yn y Cysegr. I Bopty Lleuar am eu gwasanaeth. Diolch arbennig i gwmni Meinir a Dylan Griffith yr Ymgymerywyr a'u staff am eu gwasanaeth trylwyr ar amser anodd iddynt hwy. Diolch i'r nifer â gyfranoddd £1500 er cof am Mair. Fe ddotharhir yr arian tuag at Elusennau Lleol.

CYDYMDEIMLO: Bu cyfnod y Nadolig yn adeg o golledion i ardal Bethel. Fel ardal rydym yn cydymdeimlo a Margaret, Stephen a Robert, Tŷ Capel Cysegr gynt, o golli mab a brawd annwyl iawn sef y diweddar Philip Williams gynt o Tre'r Gof, Caernarfon. Yr oedd Philip wedi dioddef ers sawl blwyddyn ond wedi brwydro'r ddewr a'i 'hiwmor' yn ei gynnal droeon. Un o deulu agos oedd Philip ac fe gofia'r pentref am rodd Robert o aren i'w frawd. Yr un modd rydym yn

cydymdeimlo â Megan, Colin a Paul, Is-helen yn eu colled o ŵr, tad a thaid annwyl sef y diweddar Daniel Humphreys. Un tawel, annwyl oedd Danny yn frodor o Ddyffryn Nantlle. Un arall eto a frwydrodd yn ddi-gŵyn dros gyfnod o amser.

Cydymdeimlad dwys hefyd i deulu'r diweddar Dafydd Hughes, Llanberis (Dafydd Ty'n Rhos) gynt.

Hefyd i Annwylid Jones a'r teulu y Gaerwen, Ffordd Cae Metta o golli gŵr a thad annwyl y diweddar Ieuan Jones.

YMWELWYR Y NOS: Unwaith eto y mis yma cafwyd adroddiadau o ymddygiad amheus o gwmpas moduron yn ystod oriau'r nos. Fe lwyddodd y dihirod i ddwyn ambell beth o'r ceir yn ardal y Cremlyn a Stad y Ddôl. Y mae'r heddlu yn ymwybodol o'r pryderon ac wedi cynyddu eu presenoldeb yn yr ardal yn ystod oriau'r nos. Maent yn apelio am unrhyw gymorth i geisio dal y troseddwr/wyr. Yn amlwg, dylsai pawb adael eu ceir dan glo ac heb unrhyw beth o werth yn y golwg.

Cysegr Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol 2016.

Pleser yw adrodd bod oedolion a phlant y Cysegr wedi casglu £312 yn dilyn nifer o weithgareddau dros y Nadolig. Diolch i bawb am gyfrannu.

Clwb Bro Bethel Bydd cyfarfod mis Chwefror yn Festri Cysegr yng nghwmni John Eden Jones, Caernarfon, ar brynhawn Mawrth, Chwefror 7 fed, am 2.00.

Cymdeithas Lenyddol Croesawyd pawb ynghyd i gyfarfod mis Ionawr gan Lywydd y noson, Jenkin Griffiths, gan estyn croeso arbennig i'r gŵr gwadd, John Grisdale, Caernarfon, Is-lywydd Tim Achub Mynydd Llanberis. Cyflwynodd, gyda help lluniau pwrpasol, hanes rhai mynyddwyr cynnar, yn ogystal â'r ymwelwyr presennol sydd yn troedio'r Wyddfa yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn y sgwrs cafwyd cyfle i holi ychydig o gwestiynau i'r siaradwr ac yna mwynhau cymdeithasu dros banad.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri Bethel ar nos Fawrth, Chwefror 21. yng nghwmni Emrys Llywelyn Jones, Caernarfon.

O'RCYNGORCYMUNED

Mae nifer yn gweld eisiau cofnodion yn yr Eco. Ar gais y Golygydd bydd fersiwn diwygiedig yn gael ei gynnwys yn y rhifyn nesaf. Fe ellir cael y cofnodion llawn gan gynnwys y daflen wariant ar wefan Cyngor Llanddeiniolen.

Yn y cyngor diwethaf (Rhagfyr) cafwyd tri chais cynllunio yn ymwneud â Bethel. Nid oedd gwrthwynebiad i droi safle yr hen Warws, Maes yr Haf yn fangre adeiladu 2 dŷ deulawr. Yn yr un modd nid oedd gwrthwynebiad i ddymchwel Tŷ'n Pwll ac adeiladu 2 dŷ deulawr. Yr oedd gwrthwynebiad i'r cais i godi 4 tŷ, creu ffordd stad newydd a mynedfa allanol newydd o ddarn o dir tu cefn i Gapel Bethel. Sail y gwrthwynebiasd oedd carthffosiaeth, diogelwch o gwmpas y safle mewn cyswllt a mynediad o'r brif ffordd, parcio, ac anaddasrwydd yr allanfa i lôn un trac.

Trafodwyd hefyd y cais i osod mast ffon-symudol ar lain o dir ger Cae Pêl-droed Bethel. Tynnwyd sylw fod y safle a gynnigir yn sicr yn tynnu sylw gyrrwyr a hynny ar gornel brysur ble mae cerbydau yn troi i neu o Ffordd Crawia. Bu cynghorwyr Bethel yn cyd-drafod a'r bwriad yw chwilio am safle arall.

Yng nghyngor Ionawr bu trafodaeth are benu y briseb ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Y penderfyniad oedd pennu treth gymunedol y Cyngor ar lefel o £11.13 ar gyfer annedd band D. Dylsai hyn gynhyrchu £20,000 tuag at gefnogi ein cymunedau. Fe fydd cynghorwyr pob un o'r pum pentref/ward yn y plwyf yn cyflwyno gwahanol gynlluniau/prosiect i'r cyngor ac fe drafodir pob un yn ei dro. Fel pob blwyddyn fe fydd y cyngor yn dosrannu o gwmpas £4000 i £5000 ymysg cymdeithasau/ clybiau/neuaddau/ eisteddfodau y plwyf.


Mynegwyd gobaith y bydd y seddau gwag yn yr ambell ward – un ym Methel – yn cael eu llenwi wedi etholiadau mis Mai. Mae'n bwysig felly bod llais a dyheadau y pentref yn cael eu cynrychioli i'r eithaf. Ai chi yw'r person hwnnw?

Cronfa Mynwent Eglwys St Deiniol Llanddeiniolen 2016

Mae costau cynnal a chadw Mynwent St Deiniol yn codi yn flynyddol ac rydym yn

gwbl ddbynnol ar gyfraniadau fel yr isod. Os oes gennych fedd teulu yn y Fynwent buasem yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniad ariannol trwy law y Trysorydd: Mr Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel, Caernarfon LL55 3AA. Sicciau yn daladwy i "Cronfa Mynwent Llanddeiniolen" Byddwn yn cydnabod pob cyfraniad. Diolch i'r canlynol am eu cyfraniad am y flwyddyn 2016:-

£150 Dylan Edwards a Gareth Jones, 3 Bro Deiniol, Deiniolen. £100 Mrs C A Lowe, Epworth, North Lincs. £100 Myfanwy Harper, Ty Newydd Llandegai, £100 Di-enw, £50 Mrs M. Roberts, Rhedynog, Ffordd Bethel, Caernarfon. £50 R J Thomas, Buarthau, Llanrug. £50 Brian a Eirlys Sharpe, Ael y Bryn, Bethel. £40 Wyn Hughes Cringae, Deiniolen. £40 Huw a Pat Hughes, 11 Stad Eryri Bethel, £40 Meira Griffith Crud yr Awen, Penisarwaen. £30 Albert Hughes, 34 Bro Rhos, Bethel, £30, Jennifer a Valerie, Stad Rhoslan Bethel, £25 Elsbeth Edwards Caerdydd, £25 Elwyn a Gwyneth Jones Llys Gwynt, Llanddeiniolen, £20 C Thomas 68 Stryd Bangor, Y Felinheli. £20 David Cross Lichfield, Staffs. £20 Ivy Wright 2 Tan y Buarth Bethel, £20 Megan Humphries Is Helen Tregof Bethel, £20 Mr a Mrs J M Griffith, Llwyn Eithin, Bethel. £10 Eirian Jones, 11 New Street Deiniolen. £10 Marjorie Roberts Ty Newydd Bethel £10 Mrs A P Hughes, 13 Council Houses, Llanbedrgoch, £5 Nan Owen, Berwyn, Bethel. £5 Mr B Richards, 1 John Street, Bethesda.



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy



Teyrnged i Gwyneth ap Tomos

Ar Ragfyr 5ed 2016 bu farw Gwyneth ap Tomos, oedd yn un o arlunwyr enwocaf Cymru, ac a fagwyd yn Tŷ Gwyn, Caeathro. Yn 79 mlwydd oed roedd wedi brwydro cancr am flynyddoedd. Bu Gwyneth a'i gŵr, Dafydd, yn gyfrifol am achub Plas Glyn Y Weddw, Llanbedrog, o adfeilio'n llwyr ac mae un ystafell o'r plasty, yn haeddiannol iawn, wedi ei henwi yn 'Oriol ap Tomos'.

Roedd Gwyneth yn arlunio ers yn ifanc iawn yn nhyddyn Tŷ Gwyn, er i'w mam ei hannog i greu bywoliaeth sicrach fel ysgrifenyddes, a bu'n organydd yng Nghapel Caeathro am gyfnod. Wedi priodi ei hail ŵr, Dafydd, yn 1971 datblygodd ei thalent a'i galwad cryf i arlunio a breud-dwyd y ddau oedd cael agor galeri eu hunain. Daeth y cyfle pan agorwyd galeri fechan ganddynt ar Stryd Fawr, Pwllheli, yn y 70 au ond fis Hydref 1979 cawsant eu swyno'n llwyr gan Blas Glyn Y Weddw oedd yn adfail a'i erddi yn anialwch llwyr. Roedd y Plas ar werth ac, ar ôl mentro a phrynu'r lle hudolus hwn, bu dwy flynedd a mwy o waith ymroddedig a llafur cariad i'w atgyweirio a'i ail agor fel galeri i'r cyhoedd. Cofiaf ymweld â'r Plas ar ddechrau yr wythdegau a gweldd Dafydd ar ei gefn ar sgaffaldiau yn paentio'r nenfwd yn hynod o gywain, ac yn dweud ei fod yn agosach i'r nefoedd yno nac yn unman arall. Yn fuan wedyn darganfuwyd cancr Gwyneth, a gwrthododd driniaeth a fyddai wedi parlysu ochr dde ei chorff ac, yn fwy dinistriol fyth i arlunydd, wedi parlysu ei llaw. Yn hytrach bu'n arbrofi gyda nifer o driniaethau trwy gydol ei hoes.

Mae llafur a chariad Gwyneth a Dafydd tuag at y Plas yn amlwg iawn i ymwelwyr heddiw, ac o barch iddynt sefydlwyd Cyfeillion Plas Glyn Y Weddw yn elusen celf annibynnol, y fwyaf o'i bath yng Nghymru hyd heddiw. Lluniwyd tirluniau gorau Gwyneth yn Eryri, yn cwmpasu urddas y mynyddoedd â thyddynnod gwledig fel Tŷ Gwyn lle cafodd ei magu. Mae llun Gwyneth o Tŷ Gwyn a Cae Rhyduau yn y cefndir, ar fur y Plas, holwch amdano pan yn ymweld.

Testun balchder i drigolion Caeathro yw fod gwreiddiau Gwyneth ap Tomos yn y pentref a'i bod wedi cael llwyddiant aruthrol fel arlunydd.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Dafydd ei gŵr, ei phlant Barry, Linda, Joseph, Gwyn a Carrog, ei nith Mair, Llety'r Wennol (oedd yn wir fel chwaer iddi) a'r holl deulu yn eu colled.

Gwasanaethau y Capel Ar Ddydd Sul, Chwefror 5ed, am 2 o'r gloch bydd y gwasanaeth dan ofal y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson, a gweinyddir sacrament y Cymun.

Ar Ddydd Sul, Chwefror 19eg, am 2 o'r gloch gwasanaethir gan Mr Cledwyn Williams. Llywydd y mis fydd Eryl Jones (673 107) gyda Bethan Iwan yn organyddes.

Tynfa Misol Dyma ganlyniadau y dynfa am fis Rhagfyr, Y Nadolig a mis Ionawr. Diolch eto i Bwyllgor Cae Chwarae, Caeathro am eu gwaith trwy gydol 2016.

Rhagfyr. £40: Robat Roberts, 23 Rhes Glan Gwna (15); £25: Eric a Beryl Roberts, 11 Erw Wen (105); £15: R. Chambers Jones, Hafod Wen (94); £5: D. Morris, Frondeg (10).

YNadolig £10 i ddeg person: Harriet Roberts, 5 Erw Wen (54); Peter Roscoe, Perthi (91); W.E. Hughes, Cefn Gwern (48); Nan Hughes Roberts, 10 Erw Wen (78); Stephen a Kerry, 9 Bryn Gof (44); Rhys Evans, Monfa (8); Sharon Hughes, 11 Rhes Glan Gwna (81); R. Chambers Jones, Hafod Wen (94); Rhys a Elin Jones, Ty'n y Coed (26); Llio Jones, Glanrafon (102).

Ionawr: £40: Arwel Evans, 8 Rhes Glan Gwna (21); £25: M. Hemsworth, The Barn (7); £15: A. a T. Jones, Islwyn (11); Shaun ac Anna, Y Wern (82).

Profedigaeth Cydymdeimlwn â theulu Llety'r Wennol ar golli Gwyneth ap Tomos, sef ei nith, Mair a chwaer i'r ddiweddar Cassie Hughes, Tŷ Gwyn.

Cyflwr y ffordd Rhwng Penrhos a Bryn Eglwys mae wyneb y ffordd yn warthus, heb ei hail darmacio ers o leiaf chwarter canrif. Gwnaed sylw o hyn i Adran y Prifffyrdd ar Awst 16, 2016 ac eto ar Ionawr 9, 2017 ac maent wedi dweud y bydd sylw i'r mater. Cefnogwch y cais yma drwy ffonio 01766 771000, gan ddefnyddio cyfeirnod 1-147037237. Diolch.

Clwb Merched Cafwyd noson braf yn Bryn Eisteddfod i ddathlu'r Nadolig a byddwn yn ail ymgynnull ar nos Iau, Ionawr 26ain, pan fydd Mr John Jones, Garreg Lwyd, yn ein difyrru gyda enghreifftiau o hen gelfi Cymreig a storïau amdanynt. Fis Chwefror byddwn yn ymweld â Bragdy Nefyn a bydd angen rhoi eich enw a'r arian ar Ionawr 26.

Ffenestri CADNANT Windows
iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Gwasanaeth Gwres a Plymio safe REGISTERED
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith profesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

HUW OWEN
PLASTRWR ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd. LLANRUG, Caernarfon LL55 4AG
Ebostr- lisa.huw@btinternet.com

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"

DIONI
http://dioni.co.uk
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

CWMY GLO

Genedigaeth Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Bethan a Llifon, 1 Bryn Difyr, ar enedigaeth mab bach, Noa Cledwyn, brawd i Tomos Cledwyn.

Hefyd i Nicola a Geraint, Tŷ Capel, ar enedigaeth merch fach, Megan, chwaer fach i Llŷr.

Undeb y Mamau

Cyfarfu'r aelodau yn festri Eglwys Sant Mair ar bnawn Mawrth, 20fed o Ragfyr. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Auriel. Darllenwyd cofnodion cyfarfod Tachwedd a chafwyd adroddiad am y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mhenrhyndeudraeth yn ddiweddar. Cafwyd gwasnaeth o lithoedd a charolau. Diolchodd Marjorie i Auriel am baratoi'r lluniaeth, ac enillwyd y raffl gan Katie a Marjorie. Terfynwyd y cyfarfod drwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg.

Cyfarfu'r aelodau bnawn Mawrth, Ionawr 17eg yn Eglwys Sant Mair. Croesawyd pawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth dwyieithog. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Hilda, Enid, Iris, Irona a Bet. Darllenwyd cofnodion cyfarfod Rhagfyr a'u derbyn. Darllenwyd cardiau o ddiolch oddi wrth Gwyneth a Hilda, a llythyr oddi wrth Jenny Lane, Llywydd y Ddeoniaeth yn trafod taith y faner o amgylch yr eglwys. Y gwesteion oedd Marjorie a Dorothy, a diolchwyd iddynt gan Auriel. Enillwyd y raffl gan Joyce. Terfynwyd y cyfarfod drwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg.

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

**menter
fachwen**

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163 www.menterfachwen.org.uk

LLUN 6 CHWEFOR 10.00 yb
RHIWLAS A CASTELL: O'R OES HAEARN I'R AIL RHYFEL BYD (2½ milltir)
GYDA MARTIN DAVIES O 'ARDAL'
CYCHWYN: CANOLFAN CYMDEITHASOL RHIWLAS
CYMEDROL. SGIDIAU CERDDED
NOS LUN 13 CHWEFOR 7.00 yb
DARGANFOD Y LLEUAD (1½ milltir)
CYCHWYN: CAE CHWARAE GLANMOELYN, LLANRUG
EITHA HAWDD. SGIDIAU CERDDED.
LLUN 20 CHWEFOR 10.00 yb
YNYS MONHYNAFOL (RHAN 1): CAERLEB I BODOWYR (3½ milltir)
GYDA MARTIN DAVIES O 'ARDAL'
CYCHWYN: CILFAN PARCIO CAER LEB, GER BRYNSIENCYN.
EITHA HAWDD ON FWDLYD MEWN UN NEU DDAU LLE.
SGIDIAU CERDDED.
GWENER 24 CHWEFOR 1.30 yp
CRWYDRO DINORWIG (2 milltir)
CYCHWYN: 'BUS TURNAROUND', DINORWIG.
YCHYDIG YN FRYNIOG GYDA CWPL O GAMFEYDD OND
NID YN RHY DDRWG. SGIDIAU CERDDED.



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394**

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Un funud fach ...

DUW SY'N COFIO

Ddechrau'r flwyddyn mi gawsom gwis yn yr oedfa a hwnnw, yn ddigon priodol ar drothwy blwyddyn newydd, yn ymwneud â digwyddiadau'r hen flwyddyn. Cwis digon syml, gallech dybio; rhestr o ddeuddeg o bethau a ddigwyddodd yn ystod 2016; un digwyddiad i bob mis o'r flwyddyn. A'r cwbl oedd angen i ni ei wneud oedd dweud ym mha fis y digwyddodd pob un. Tri thim am y gorau i roi trefn ar y digwyddiadau o fyd chwaraeon, ffilm, gwleidyddiaeth ac ati; a siom o'r mwyaf oedd gweld fod y ddau dim arall wedi gwneud yn well na'n tim ni. Dim ond tri ateb cywir gawsom ni.

Roedd y ddau dim arall yn well na ni, ond doedd neb yn agos at gael pob ateb yn gywir. Roedd ambell un o'r digwyddiadau wedi mynd yn anghof; ambell un, fel dyddiad Etholiad y Cynulliad ym mis Mai, yn fyw yn y cof; a'r gweddill wedi mynd yn gymysg â'i gilydd. Ym mha fis y bu farw Alan Rickman, neu yr ymddiswyddodd Diane Jones o arwain UKIP, neu y bu'r gyflafan ar strydoedd Brwsel? Pob math o ddigwyddiadau, dwys a difyr, pwysig a dibwys, wedi lithro'n rhyfedd i niwl rhyw hen orffennol newydd.

Mor rhwydd yw anghofio. Mae hynny'n wir am ddigwyddiadau mawr ar lwyfan byd. Mae'n wir am bethau sy'n digwydd yn nes atom. Ond gwaeth na'r cyfan, mae hefyd yn wir am dreialon a helbulon a dioddefiadau cyfeillion a chymdogion a châr. Gall y rhelyw o bobl anghofio. Ac oherwydd hynny, mor werthfawr bob amser yw'r bobl sydd yn cofio.

Gallwn ddiolch i Dduw am y ffrindiau a'r perthnasau sy'n dal i gofio wrth i'r wythnosau a'r misoedd a'r blynyddoedd fynd heibio. A mwy na hynny hyd yn oed, gallwn ddiolch fod Duw yn cofio. O'r cychwyn cyntaf, mae'r Beibl yn pwysleisio fod Duw yn cofio ei bobl: 'Cofiodd Duw am Noa' (Genesis 8:1); 'yr oedd wedi cofio am Abraham' (Genesis 19:29); 'a chofiodd Duw Rachel' (Genesis 30:22); 'a chofiodd ei gyfamod ag Abraham, Isaac a Jacob' (Exodus 2:24). Ie, Duw sy'n cofio yw Duw'r Beibl. Mae'n cofio'r addewidion a wnaeth. Mae'n cofio ei gyfamod â'i bobl. Mae'n cofio ei bobl. Ac mae'n cofio amdanom ni ym mhob peth sy'n digwydd i ni o flwyddyn i flwyddyn ac o ddydd i ddydd.

Ac ar ddechrau blwyddyn newydd arall, cysur o'r mwyaf yw gwybod hynny. Beth bynnag a ddaw, mae gennym Dduw sydd ac a fydd eto'n cofio amdanom. Awn ni byth yn anghof i'r Arglwydd. Aiff ein llawenydd byth yn anghof i'r Duw sy'n cofio amdanom ac yn darparu pob math o fendithion ar ein cyfer. Ac aiff ein trafferthion byth yn anghof i'r Duw a fydd yn ein cynnal ym mhob storm a thralod a all ddod i'n rhan.

JOHN PRITCHARD

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaeth Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd  **CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



Dyma'r flwyddyn 2017 bron yn fis oed a phentref'r Waun wedi cael siop. Diolch i Mark am fentro a phob dymuniad da iddo gyda'r fenter.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Rhagfyr oedd: £30: Ms Sylvia Thompson, 21 Bro Waun; £20: Mr Aeron Jones, 9 Croes y Waun; £10: Mr Mike Rieveley, Rhwng Ddwyr Ryd.

Sefydliad y Merched Yng nghyfarfod y Sefydliad ar Ionawr 6ed croesawodd y Llywydd yr aelodau yn ôl wedi gwyliau'r Nadolig. Cyfeiriodd at Hilda Williams sydd wedi syrthio yn ei chartref ac wedi torri ei chlun. Rhoddodd hefyd groeso i Carys Owen oedd am ymaelodi. Neis gweld aelod newydd ifanc am ddod atom.

Catherine roddodd ychydig o hanes ardal y Waun 80+ o flynyddoedd yn ôl yn ystod y cyfarfod, gan fod y mwyafrif o'r aelodau yn ddieithr i'r ardal. Mis nesaf, mwy o aelodau fydd yn rhoi tipyn o hanes eu cefndir. Croeso cynnes i fwy o aelodau newydd.

Disgyblion Ysgol Brynrefail Rhaid canmol disgyblion yr ysgol am Eisteddfod lewyrchus a hwyliog. Da iawn pob un o'r pentref fu'n cystadlu a chymryd rhan ar y llwyfan a llongyfarchiadau i'r rhai ddaeth i'r brig.

Sioe Nadolig Bu disgyblion yr Ysgol Gynradd yn perfformio eu Sioe Nadolig dair gwaith yn y Neuadd, a'r rhieni yn canmol ac yn falch iawn o'r perfformiadau.

Cafodd disgyblion bach y dosbarth Meithrin eu cyfle i ddiddori eu cynulleidfa fore Iau cyn i'r ysgol gau dros wyliau'r Nadolig.

Dymuna rhieni plant yr ysgol ddiolch i'r athrawon a'r staff am eu gwaith paratoi.

Noson Goleuo'r Goeden Nadolig Diolch i bwyllgor y Cyngor Cymuned am drefnu noson gymdeithasol yn y pentref i'r trigolion gael cyfle i gyfarfod a chael gwledd fach o adloniant gan blant yr Ysgol Feithrin a'r Ysgol Gynradd, unigolion a grwpiau talentog o'r pentref. Diolch i aelodau y Clwb Ieuencid, dan ofal eu harweinydd, Paul Evans, am baratoi paned a mins pei i bawb gael cynhesu a chyfle am sgwrs. Bydd elw'r 'Caffi' yn mynd tuag at gronfar Ysgol Gynradd, a'r Ysgol Feithrin, a fu'n gyfrifol

am drefnu y raffl, yn cael elw'r raffl. Dymuna'r trefnwyr ddiolch am y gefnogaeth i'r noson ac i'r rhai a drefnodd i osod y goeden a'r goleuadau lliwgar pan bwysodd Rhodri Siôn y botwm.

Rhannu Cyfarchion y Nadolig Diolch eto eleni i aelodau'r Clwb Ieuencid am roi cerdyn Nadolig i ddymuno cyfarchion y tymor i bob cartref yn y pentref.

Derbyn Anrheg Llongyfarchiadau i deulu Trefeddyg am fod mor lwcus â derbyn galwad ffôn oddi wrth gwmni y rhaglen Heno ar S4C a chael anrheg o'r 'Cracry Dolig' cyn y Nadolig.

Noswyl y Nadolig yn Eglwys y Waun Cafwyd gwasanaeth o ganu Carolau cynulleidfaol ac eitemau o gân a llefaru gan unigolion, côr plant yr Ysgol Gynradd a pharti Merched Gwyrfa. Ar derfyn y gwasanaeth gwnaed casgliad ariannol. Anfonwyd y swm o ddau gant ac ugain o bunnoeddi gronfa Cymorth i'r Ffoaduriaid. Dymuna'r trefnwyr ddiolch i'r rhai gymerodd ran ac i bawb gyfrannodd i'r casgliad ariannol.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Noswyl Nadolig yn Eglwys Betws Garmon hefyd ble bu canu carolau a chymdeithasu dros banded a mins pei.

Dathlu Pen-blwydd Yn ystod mis Ionawr bu Jac Rowlands, Stad Bro Waun, ac Ethan Costello, Pant Gwyn, yn dathlu cyrraedd eu deunaw oed. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch a phob dymuniad da ichi i'r dyfodol.

Diolch Dymuna Karen, Bryn Celyn, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y dymuniadau da a'r rhoddion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar. Mae'r degawdau o flynyddoedd yn mynd yn sydyn iawn!

Diolch i Elgan Rhys, Eryri Wen, am ei erthygl yn rhifyn mis diwethaf o'r Eco yn sôn fel roedd o wedi dilyn tîm pêl-droed Cymru yr haf diwethaf a chael 'profiad bythgofiadwy'. Yna yn ystod yr wythnosau diwethaf gwelsom ef a Mared, ei chwaer, a'i dad a'i fam yn rhoi pytiau o sylwebaeth ar gemau yr Euros ar y teledu.

Dyma yn siwr ichi deulu sy'n methu aros i weld gemau rhagbrofol Cwpan y Byd yn ailgychwyn ym mis Mawrth.

Brysiwch Wella Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i bedair o'r pentref sydd wedi'u hanafu drwy anffawd yn eu cartref. Mae Mrs Janet Hughes wedi torri ei choes a'i braich; Mrs Hilda Williams wedi torri ei chlun; a Meg Elis a Sioned Sykes fach, y ddwy wedi anafu eu braich. Hyderwn y byddwch yn dod atoch eich hunain ac y byddwch o gwmpas yn fuan.

Bu Gareth Roberts, Stad Bro Waun a'r Antur yn derbyn triniaeth a gofal yn yr ysbyty ac erbyn hyn mae wedi mynd i aros i Gartref Preswyl Penisarwaun i gael gofal parhaol. Dymunwn bob hapusrwydd iddo yno. Bydd Emsul, ei chwaer, yn siwr o ymweld ag ef yn aml ac yn gadael inni wybod sut y mae o.

Cydymdeimlo Daeth y brofedigaeth drist o golli un annwyl iddynt i ran teulu Tegannedd. Cydymdeimlwn yn ddwys â Iola yn colli ei mam, â Rhys yn colli mam-ying-nghyfraith ac â Gwenllian a'r efeilliaid, Guto a Morgan, yn colli nain hoffus iddynt.

Yn dawel yn ei chartref, Rhos Goch, bu fawr Mrs Beatrice Roberts. Anfonwn ein cydymdeimlad at John, ei mab a'i deulu a theulu ei diweddar fab, Stephen, ac at ei llysfab a'i llysfarch, Cyril ac Annwen a'u teulu yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig daeth y newyddion trist am farwolaeth Adrian Roberts, brawd ieuengaf Annwen, Arnold, Beryl a Malcolm, 9 Bryn Golau (gynt). Nyrs oedd Adrian wrth ei alwedigaeth ac wedi llwyddo mewn llawer arholiad yn ystod ei yrfa. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu profedigaeth drist. Bu'r gwasanaeth angladd yn Amlosgfa Bangor ar y Sadwrn cyntaf o'r flwyddyn pryd y daeth llawer ynghyd i dalu eu teyrnged iddo.

Apêl Haf, yr elusen-wraig brysur Fel y gwelsom yn rhifyn Nadolig yr Eco, mae Haf Thomas, Buarthau, Llanrug, yn casglu stampiau tuag at Gymdeithas y Ddeillion. Os oes rhai ohonoch wedi casglu stampiau a dim yn siŵr sut i'w hanfon iddi, dowch â nhw i mi a byddaf yn barod iawn i fynd â nhw iddi. Diolch.

Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Chwefror

5: Parch Angharad Roberts, Trefor

12: Mrs Susan Williams

19: Cyfarfod Gweddi

26: Mr Dafydd Charles Thomas

Merched y Wawr Erbyn i'r rhifyn hwn ddod o'r Wasg bydd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd wedi bod, gyda cwis hwyliog dan ofal Bethan yn y Ganolfan ar 26ain o Ionawr. Edrychwn ymlaen am ein swper G?yl Ddewi yng nghaffi Antur Waunfawr ar yr 2il o Fawrth. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd i bob un o'r cyfarfodydd.

Ysgol Waunfawr

Hoffai plant a staff yr ysgol ddymuno blwyddyn newydd dda i holl ddarllenwyr yr Eco. Bu'n ddiwedd tymor prysur fel arfer.

Ffair Nadolig Cynhaliwyd ein Ffair Nadolig ar nos Fercher, Rhagfyr yr 7fed. Roedd yn braf gweld cymaint o rieni a chyn ddisgyblion yn bresennol. Gwnaed dros £750 o elw. Diolch i bawb a gefnogodd y noson.

Cinio Nadolig Cafwyd ginio Nadolig blasus ddydd Iau, Rhagfyr yr 8fed, pawb wedi gwisgo mewn siwmpwr Nadoligaidd a chasglwyd £60 tuag at Gronfa Achub y Plant.

Canu Carolau Bu'r disgyblion yn canu carolau yn noson Miri Siôn Corn yn yr Antur ddechrau mis Rhagfyr yn ogystal â chanu o gwmpas y Goeden Nadolig yn y pentref. Sioeau Nadolig Cafwyd tair sioe Nadolig lwyddiannus iawn yn y Ganolfan. Diolch i'r plant a'r staff am eu gwaith clodwiw a diolch i'r rhieni hynny a fu'n helpu gyda'r system sain ac wrth y drws. Diolch i Paul Evans am ffilmio'r sioe mae DVD ar werth yn yr ysgol am £4.00 yr un.

Cyngerdd dosbarth Meithrin Daeth rhieni'r plant Meithrin i'r ysgol fore ddydd Iau, Rhagfyr y 15fed, i glywed y plant yn canu a chael paned a mins pei. Roedd y plant yn werth eu gweld yn eu gwisgoedd.

Antur Roedd plant Adran y Babanod wedi eu cyfareddu wrth gael brecwast gyda Siôn Corn yn yr Antur ddiwedd y tymor. Diolch i Tracy a Dianne am baratoi brecwast mor flasu.

Calennig i'r Waun



Fu dim rhaid i drigolion y Waunfawr fynd o amgylch i ganu am galennig eleni, ac er mai yn ystod yr ail wythnos y daeth, ac nid ar Ddydd Calan, roedd croeso cynnes i'r siop gyntaf i agor yn y pentref ers nifer o flynyddoedd.

Mark Sykes, perchennog Garej Pant Waun fu'n gyfrifol am agor y siop mewn rhan o'r garej, a Linsey Williams yw'r rheolwraig. Agorodd y siop yn swyddogol ar Ionawr 12fed, yn gwerthu yr amrywiol nwyddau sydd eu hangen ar bob pentref: bara, llefrith, papurau newyddion, llysiau a ffrwythau, cigoedd oer, diodydd a

sigarets, ond yn cynnwys amrywiaeth eang o nwyddau eraill hefyd. Bydd y siop ar agor bob dydd o'r wythnos; o saith y bore hyd wyth y nos o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac o wyth y bore hyd chwech y nos ar y Sul.

Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd mae'n fwy na thebyg y bydd gwasanaeth Paypoint a Lottery ar gael yn y siop. Mae bwriad hefyd i wneud cais am wasanaeth Swyddfa Bost yn y dyfodol agos. Felly, bobol Waunfawr; mwynhewch eich calennig – a chefnogwch.

Sgiliau Antur: Prosiect newydd yn galw am wirfoddolwyr



Mae menter gymdeithasol yn dathlu wedi iddynt dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn rhedeg prosiect newydd ar gyfer hyrwyddo iechyd a llesiant a recriwtio gwirfoddolwyr.

Mae Antur Waunfawr yn fenter gymdeithasol sydd yn datblygu cyfleoedd gwaith integredig, hyfforddiant a gofal ar gyfer oedolion gydag anawsterau dysgu. Mae'r prosiect newydd, a elwir yn 'Sgiliau Antur' yn brosiect tri mis wedi ei ariannu gan Y Gronfa Gofal Ganolradd – Grant Anabledau Dysgu ac Anghenion Cymhleth gan Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Gymdeithasol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r Antur yn gobeithio recriwtio gwirfoddolwyr i redeg sesiynau arbenigol mewn pedwar maes gwahanol; gwaith llaw a chelf a chrefft; cerdded a ffitrwydd; beicio; a tyfu llysiau a bwyta'n iach.

Mae'r prosiect hefyd yn ffurfio partneriaeth rhwng Antur Waunfawr ac

Age Cymru Gwynedd a Môn, ar y cyd a'u prosiect 'Men's Sheds - Hogia Ni', sydd yn targedu dynion dros 50 oed. Mae ymchwil yn dangos fod dynion hŷn yn ganran o'r boblogaeth sy'n aml ddim yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, a gall hyn achosi unigrwydd a phroblemau iechyd. Wrth gynnig cyfleoedd gwirfoddoli, mae'r Antur yn cynnig y cyfle i'r gwirfoddolwyr basio eu sgiliau ymlaen a chael hwyl mewn amgylchedd gymdeithasol.

Dywedodd Menna Jones, Prif Weithredwraig: "Rydym yn ymwybodol o'r nifer o effeithiau positif o gael gwirfoddolwyr yn gweithio gyfochrog a'n cleientiaid yn yr Antur – mae'n rhoi'r cyfle iddynt gyfarfod a phobl newydd a dysgu sgiliau newydd, a caiff y gwirfoddolwyr y pleser o rannu eu hamser a'u gwybodaeth."

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn gwirfoddoli efo'r Antur, cysylltwch ag Elain Hughes ar 01286650721, neu ebostiwch elain.hughes@anturwaunfawr.cymru.



Ar ben arall i'r lein

Dyma ni unwaith eto ar drothwy tymor newydd, be ddaw ein ffordd eleni tybed? Cymysg iawn 'di pethau wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf - ers 2009 a dweud y gwir - gyda gwreiddyn ein trafferthion yn tarddu o broblemau Llyn Padarn. Ond diolch i'r drefn mae pethau yn gwella, ac os dalith Dŵr Cymru ati gyda'r gwelliannau a'u addewidion yna cawn edrych ymlaen i weld y bysgodfa'n adfywio i'r safon a fu flynyddoedd yn ôl. Yr unig rwystr i hyn ar broblem fawr sy'n parhau, ac i'w weld yn gyndyn iawn o ddangos gwelliant, yw safon yr ocsigen toddedig yng ngwaelodion y llyn. Mae hyn yn golygu mai dim ond y 10 metr uchaf o'r dŵr sy'n addas i bysgod fel y torgoch, brithyll, eog ar sewin. Mae pysgod dŵr bas fel y draenogiad yn fwy goddefgar i brinder ocsigen, dyna pam fod rhain yn cynyddu.

'Rwyf wedi cael y cyfrif terfynol gan Fish Legal o gostau'r camau y bu'n angenrheidiol eu cymryd i gael Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i ysgwyddo eu cyfrifoldebau i gario allan y gwelliannau angenrheidiol - wel peidiwch a dal eich gwynt - sef £300,000. Fish Legal sydd wedi ysgwyddo'r baich gyda chyfraniad bychan iawn gan y Gymdeithas. 'Sgw'n i a oes yna rai sydd wedi elwa'n aruthrol drwy fanteisio ar ein aelodaeth o'r corff yma yn fodlon cyfrannu ychydig at y gwariant! Mae'n siŵr fod mwy o obaith i hen ful Tai'r Felin atgyfodi nac i unrhyw geiniog ddod o unman fel cydnabyddiaeth.

Gyda Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi diwedd ar unrhyw stocio eog a sewin mae cryn anniddigrwydd led-led Cymru. Yr unig fendith o hyn yw i ddalgylchoedd fel y Seiont, ble 'roedd cytundebau cyfreithiol mewn lle i geisio lleihau datblygiadau oedd yn debygol o

achosi niwed i'r bysgodfa. Yn ein achos ni oedd datblygiad gorsaf Dinorwig - a'r niwed mae'n dal i'w wneud hefyd. Fodd bynnag am hynny, fel rhyw gam i geisio lleddfu'r boen mae arian wedi ei glustnodi at waith i wella cynefinoedd dyfrol y dyffryn. Mae llawer yn gyfarwydd â'r gwaith sydd wedi cael ei wneud ym Mhenllyn i lanhau'r gro magu, torri gordyfiant a thynnu chwyn, gwaith a dweud y gwir a ddylid fod yn cael ei wneud yn rheolaidd. Ond dyna fo, mae wedi ei wneud ac rwy'n falch dros ben o gael dweud ei fod wedi bod yn llwyddiant. Byddaf yn cadw llygaid ar Ben llyn yn achlysurol drwy Dachwedd a Rhagfyr, wel eleni mae'r pysgod wedi llwyr gymryd at eu gwely ar ei newydd wedd. Mae'r claddu eleni wedi bod yn eithriadol o dda gyda'r eog ar sewin, a hefyd y brithyll brown, wedi rhoi sioe gwerth ei gweld i'r rhai sydd wedi cymryd ychydig amser i edrych dros y ddwy bont.

Fel hen sinig, nid yn unig fod y gwaith yma o fudd i ni fel pysgotwyr ond does dim dwywaith bydd hefyd yn lleddfu cryn dipyn ar y tebygrwydd o lifogydd oddi fewn rhai ardaloedd ym mhentref Llanberis. Mae hyn yn beth eithriadol o dda, ond unwaith eto ein arian ni fel bysgotwyr sy'n cael ei ddefnyddio er budd y gymuned. Mae'n sicr y caf gryn boen clust am feiddio dweud y fath beth - ond weithiau y gwir sy'n

Y cam nesaf o adnewyddu'r cynefinoedd fydd ail wneud ychydig ar rai o byllau'r Finiog (Crawia) drwy osod meini go fawr i gynhyrfu tipyn mwy ar li'r afon. Gobeithio y bydd y gwaith yma'n cychwyn yn gynnar yn y gwanwyn.

Mae'n debyg fod llawer wedi syrffedu ar saga Llyn Padarn a fy adroddiadau cyson, ond mae'n rhaid dweud be sy'n mynd



ymlaen, os yw'r rhai gyda chlust i wrando yn fodlon gwando sy'n beth arall. Bu enghraifft dda o hyn yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Efallai eich bod wedi clywed fod Dŵr Cymru wedi gwrthwynebu adeiladu dros 40 o dai ar safle hen Ysgol yr Hendre, am y rheswm nad yw gwaith carthffos Caernarfon gyda'r capasiti i ymdrin â'r gwastraff ychwanegol. Wel marciau llawn iddynt, nid am fod eisiau gwrthod y cynllun ond os nad yw'r isadeiledd yn ddigonol ac yn debygol o greu llygredd - wel dyna ni hyd nes bydd y gwasanaethau angenrheidiol yn gallu ymdopi. Efallai fod y wers o broblemau Llyn Padarn wedi mynd adref o'r diwedd. Wel, ychydig wythnosau yn unig y parhaodd y gwrthwynebiad oherwydd pwysau o pob cyfeiriad, yn cynnwys cynrychiolwyr a sefydliadau lleol, i ganiatau'r datblygiad. Mae Dŵr Cymru wedi newid eu meddyliau, gan dynnu yn ôl eu gwrthwynebiad drwy roi addewid y bydd gwaith yn cael ei wneud fel bod y gwaith trin yn cael ei addasu. Bydd y cais go debygol erbyn bydd hyn yn cael ei ddarllen wedi ei ganiatau gan y cyngor. Cofiwch fe roddwyd addewid i addasu gwaith trin Llanberis yn 1993 ond 'roedd yn 2012 cyn i'r gwaith ddechrau go iawn. Ac mae pawb yn gwybod be ddigwyddodd yn y cyfamser.

Oes, mae gwir eisiau creu cartrefi newydd, ond dim ond os yw'r isadeiledd yn ddigonol, a gofalu nad yw canlyniadau'r datblygiadau yn amharu ar fywyd cymdogion a'r gymuned yn gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn mynd i Gaernarfon yn aml, ac mae arogl hyfryd o gwmpas y lle ar adegau onid oes. O ble da chi'n meddwl mae o'n dod?

Dyna ddigon ar wleidyddiaeth byd 'sgota am rhyw ychydig eto, ond be sydd ar ein meddyliau ar y foment yw beth ddaw ohoni eleni, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'u bwriad o geisio cyflwyno rheolau llym ar bysgota eog a sewin. Rhaid disgwyl i gael y cynigion llawn cyn dweud mwy, ond cyn belled ac mae'r brithyll brown yn y cwestiwn mae pethau yn addawol dros ben ar ein holl ddyfroedd. Mae'r llynnoedd

megis Nantlle, Cwellyn a Cwm Silyn wedi pysgota'n eithriadol o dda, a'r tymor claddu wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus, adlewyrchu'n dda at y dyfodol. Yr unig llyn sydd wedi ein siomi yw Padarn, ond gyda'r gobaith fy mod yn gwrth ddweud fy hun, mae llawer wedi adrodd imi am y nifer fawr o frithyll oedd yn rhedeg i fyny'r Afon Goch pan oedd y dŵr yn ffafriol yn ystod Tachwedd. Wyddoch chi, mi fydda i yn rhoi tro ar y cwch ddechrau Ebrill, y tro cyntaf i mi roi pluen ar Phadarn ers tua chwe mlynedd. Cawn wel sut yr bydd hi.

Diolch i Closs am Diolchgarwch Jac Llandudno yn rhifyn Tachwedd.

Mae'r lladron pluog yma yn gwneud niwed aruthrol i stoc bysgod mewn-dirol Cymru, eto does dim ewyllys gwleidyddol i wneud dim i adfer y sefyllfa. Cefais gadarnhad gan CNC fod rhwyd wedi ei gosod dros y bwi mesur i atal Jac rhag clwydo arno, ond cyn gynted ac mae'r rhwyd yn ei lle mae rhywrai yn ei thynnu i ffwrdd. Cefais alwad gan aelod am 7.00 yr hwyr nos Lun, 4ydd Ionawr, fod goleuadau tortsh i'w gweld o amgylch y bwi. Oer iawn i fod allan ar y llyn yng nghanol y tywyllwch ar noson mor oer. Os nad oeddynt yno i darfu ar lonyddwch clwydol y Jac ydi hynny, wrth gwrs!

Mae'r gymdeithas eleni yn gwahodd unrhyw rai sydd â diddordeb mewn contractio i dorri llwybrau glannau'r afonydd. Os â diddordeb rhowch ganiad ar 01248 670666 neu drwy e-bost at huw.hughes@lineone.net am fanylion pellach.

Diolch i deulu y diweddar Maurice Jones, Penllyn, am y rhodd o dlws i'w gyflwyno at weithgareddau'r Gymdeithas. Penderfynwyd trefnu cystadleuaeth ffotograffi i'w gyflwyno am lun o ddyfroedd neu gweithgareddau'r clwb. Yr enillydd am 2106 yw Tony Brown, Waunfawr, am ei lun o'r Afon Gwyrfa'i yn yr eira. Wedi ei gymryd o Bont Cymnant.

Cofiwch 3ydd Mawrth, diwrnod agoriadol tymor afonydd. Bydd rhaid mynd i lawr y Finiog a rhyw ddiferyn bach i gynhesu wedyn, da de!

RHOSTIO MOCHYN
 Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
 DEWCS MAE O'N FLASUS
 PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
 BEDYDD • DAWNS • GWYLIU
 CIG O FFERMYDD LLEOL
 PARTION RHWNG 40-400!
 Cysylltwch a
John Brynafon LLANRUG
 www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
 Symudol- 07798 718188

YSGOL YRRU ELIDIR DRIVING SCHOOL
07922121226
 Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo gan yr ASG
 DSA Approved Instructor
 Jacqueline Williams

BODDI WRTH YMYL Y LAN

Bu cyn edrych ymlaen o weld yr hen elynion Llanrug a Llanberis yn wynebu ei gilydd yn ffeinal Cwpan Cookson eleni. Yn anffodus colli fu hanes y ddau yn y rownd gyn-derfynol. Glantraeth, ceffylau blaen y gynghrair oedd yn ymweld ag Eithin Duon. Cafwyd gêm dda, ac yn sicr cafodd Llanrug sawl cyfle i rwydo. 1-1 oedd hi ar ddiwedd y 90 munud, ond y Monwysion aeth a hi o 3-1 wedi amser ychwanegol. Draw ym Mhenryndeudraeth colli fu hanes Llanberis o 2-1. Cafwyd sawl gêm agos rhwng y ddau dîm yma yn ddiweddar.

Bara menyn y gynghrair fydd yn wynebu'r ddau dîm o hyn ymlaen. Bydd angen rhediad da gan y ddau glwb, a bydd y triphwynt o guro Dyffryn Nantlle yn help mawr i Lanberis.

Canol y tabl yw safle Waunfawr, ond mae'n ymddangos y byddent yn saff gan fod dau dîm – Bethesda a'r Blaenau – filltiroedd ar ôl o ran pwyntiau. Trist meddwl fod y ddau dim yma ymysg ceffylau blaen pêldroed y Gogledd ar un adeg. Diddorol sylwi hefyd mai dyma ddwy ardal ble mae'r bêl-hirgron wedi denu diddordeb ieuencid lleol yn y blynyddoedd diwethaf.

TAIR MEWN PEDAIR

Erbyn hyn mae Rhun Williams wedi chwarae tair gêm i dîm rhanbarthol y Gleision, ac wedi teithio i'r Eidal, Alban a Ffrainc. yn barod. Er mai dim ond un o'r gemau ennillodd y Gleision mae Rhun, o'i safle ar yr asgell wedi sgorio tri chais. Yn y fuddugoliaeth ddiweddaraf draw yn Pau, Ffrainc, roedd Rhun wedi disodli yr asgellwr rhyngwladol Alex Cuthbert fel dewis cyntaf.

DECHRAU CANOLI?

Ar Facebook gwelais gwyn gan un o hoelion wyth pêldroed ieuencid Caernarfon fod un tîm yn cael ei ddiddymu am fod nifer o'u chwaraewyr wedi eu 'denu' at glwb arall. Y mae 'hel tim' ymysg oedolion wedi bodoli ers sawl tymor. Ymddengys fod hyn bellach yn dod fwy-fwy 'poblogaidd' yn y sector iau, yn enwedig oed uwchradd. Roeddwn i wedi synnu cyn gymaint o 'sgyno ni ddim tîm oed yna' ges i wrth geisio trefnu Tlws yr Eco y llynedd. Cwestiwn a fydd cydstadleuaeth eleni. Beth yw'r dynfa i drosglwyddo? Tlysau! Gwell hyfforddi? Gwell cyfleusterau? A fy hen gwestiwn i ers sawl tymor. I pa dimau dynion bydd y chwaraewyr dwad yma yn chwarae ar ôl cael eu croesawu a'u noddi yn eu hieuencid? A yw hyn yn destun trafod ymysg swyddogion y Gynghrair Ieuencid? Yn amlwg, mae testun trafodaeth agored ar y mater hwn.

DWYGÊM-DIGONIDRAFOD

Dyna fu fymhrofiad ddechrau'r mis yma. Roeddwn ymysg 2,500 ar Nantporth i wyllo tîm dan 23 Lerpwl yn wynebu Dinas Bangor. Yn fuan, sylweddoli ymysg y llu o ieuencid yno, mai cefnogi Lerpwl oedd y mwyafrif. Hefyd, er mai cymharol 'lleol' oedd y mwyafrif o'r dorf mai dyma eu ymweliad cyntaf â Nantporth. Teg nodi fod y mwyafrif wedi eu synnu â safon y cyfleusterau. A ddont yn ôl yw'r cwestiwn mawr. Os na, pam?

Yn bersonol, fy niddordeb oedd gwyllo y ddau Gymro yn nhîm Lerpwl – Jordan Williams o Fangor a Harry Wilson o Gorwen, captan y tîm. Wilson yw'r ieuengaf i chwarae i dîm llawn Cymru cyn ei fod yn 17 oed. Rwan yn 20 oed, nid yw eto wedi chwarae i dîm cyntaf Lerpwl. Mae yn chwaraewr dawnus a sgoriodd ddwy gôl a chreu un arall. Mae yn gyflym, a throed chwith gelfydd. Dyma'r cyfnod o'i yrfa ble mae'n awyddus i ennill ei le yn rheolaidd yng ngharfan Cymru.

Yr un yw hanes Jordan, amddiffynwr cadarn, tebygiawn ei osgo i Alan Hansen. Yn gyfforddus ar y bêl ac yn cario'r bel allan o'r amddiffyn yn hyderus.

Ond gyda chwech tramorwr yn nhîm Lerpwl, a thim cyntaf Lerpwl yn frith o chwaraewyr 'arian mawr' annodd gwybod pa gyfle ddaw i'r ddau ar lannau Merswy.

Anodd iawn i chwaraewr ifanc yw cael ei ryddhau ac yntau wedi bod yn nhimau iau y timau 'mawr' am sawl blwyddyn.

Yn Y Cymro yn ddiweddar roedd Malcolm Allen yn awgrymu y dylai y talentau ifanc yma ymuno a system academi timau Uwch Gynghrair Cymru, ble mae'r hyfforddi yn safonol. Ni chaent ymuno a chlwb tu allan i Gymru nes eu bod yn 18 oed. Dadl Malcolm yw y buasai hyn yn ffordd – fel y cyfleusterau – i wella safon y gynghrair a rhoi cyfle i'r chwaraewr lleol wneud ei farc. Mae tipyn o synnwyr yn hyn, dybiwn i.

Yr ail gêm oedd draw ar Barc Eirias i weld tîm rygbi'r gogledd RGC yn rhoi chwip din go iawn i un o glybiau hanesyddol Cymru sef Pontypridd. Roedd bron i 3000 o dorf a chawsom wledd o rygbi agored ac 8 cais i gyd. Eto, cyfleusterau da, a phris resymol o £6 i wyllo'r arlwy. Y mwyafrif o dîm y Gogledd o glybiau'r gogledd gan gynnwys Caernarfon. Erbyn hyn mae'r bechgyn yn léd-broffesiynol a'r elfennau pwysig o ffitrwydd a hyfforddi safonol yn amlygu eu chwarae. Gyda tîm y Gogledd yn bedwerydd yn yr adran ar y toriad, yna byddant ymysg yr wyth uchaf fydd yn ymgiprys am y bencampwriaeth yn yr ail ran o'r tymor. Cyfle i weld y prif dimau felly ar Barc Eirias. Yn sicr ar y lefel yma mae rygbi yn ffynnu yn y gogledd. A welwn y datblygiad o weld y gogledd yn cael statws y pumed rhanbarth broffesiynol yng Nghymru – neu cymryd lle y Dreigiau fel y pedwerydd rhanbarth. Mae'n amser cyffrous.

A'r ffactor arall oedd cael gwyllo Nigel Owens yn dyfarnu. Penigamp. Dim tynnu sylw ato'i hyn. Rheolaeth llwyr, a gair i gall ar y cyfnodau cywir yn arwain at gêm oedd yn llifo. Gyda llaw, dros yr 80 munud dim ond un sgrym oedd rhaid ei hail osod. Ydy'r rheolau yn wahanol yn y gêm broffesiynol ble mae'r sgrymiau yn cael eu ail – osod dro ar ol tro. Hefyd, dim camerau na dyfarnwr 'fideo'. Eto, gyda pob cais yr oedd Nigel yn y safle delfrydol i ganiatau neu wrthod. Meistr wrth ei waith a'r chwaraewyr yn elwa.

Ie, beth sydd yn ein denu ni i godi o'n cadeiriau esmwyth o flaen y teledu i fynd i wyllo gêm fyw? Neu efallai, beth sydd yn ein hatal rhag mynd i weld gêm fyw?

RHEDEG MYNYDD

Un ras leol yn unig yn ystod y mis nesaf, sef Ras Moelyci o Dregarth. Fe'i cynhelir ar fore Sadwrn, 11eg o Chwefror o Ganolfan Moelyci, ac yn ogystal â'r brif ras, cynhelir rasys plant hefyd. Hon yn draddodiadol yw'r ras fynydd gyntaf yn Eryri yng nghalendr y rasys mynydd am eleni, a bydd nifer dda o redwyr yn troi allan i gystadlu fel arfer. Mae'n rhoi syniad pur dda i'r rhedwyr

a fu ymarfer y gaeaf yn ddigonol! Eleni, y gobaith yw na fydd y ceffyl lleol yn penderfynu ymuno efo'r rhedwyr fel y gwnaeth y llynedd!

Ddechrau Mawrth cynhelir Ras Bwlch Maesgwm, a dyma ras gyntaf y flwyddyn o fewn ardal yr "Eco". Mae hon bellach, hefyd, wedi datblygu i ddod yn ras boblogaidd, er nad yw'r tywydd wastad wedi bod yn garedig iawn wrthi.



ORIEL CWM

CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys

Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

BWLCH MAESGWM 2017
04.03.2017
Rhan o Wyl Ffilm Llanberis
Part of the LLAMFF Festival

Joe Brown shops
01286 870327

LLAMFF
Llanberis Mountain Film Festival
Gwyl Ffilmiau Mynydd Llanberis

Chwaraeon

Sialens Beicio Mynydd Eryri



Mae Sialens Beicio Mynydd Eryri yn ddigwyddiad newydd, wedi ei drefnu gan feicwyr mynydd lleol. Mae'r cyrsiau wedi eu lleoli yng nghalon Eryri, gan gychwyn a gorffen wrth droed yr Wyddfa ym mhentref Llanberis. Gall y beicwyr wynebu dringfeydd serth, traciau gwair, traciau sengl technegol a llwybrau mewn coedwig. Bydd rhannau ar ffyrdd cyhoeddus er mwyn cysylltu'r holl gwrs.. Bydd hyn oll yn herio eich sgiliau beicio a'ch ffitrwydd. Mae rhywbeth ar gyfer pob uchelgais gyda hyd at bedwar pellter i ddewis ohonynt - byr (22km), canolig (45km), hir (60km) a'r Ddraig sydd yn 75km. Er nad yw'n ras, mae'n sicr yn sialens drawiadol i osod i chi'ch hun ar ddechrau 2017.

Bydd y digwyddiad yn cychwyn am 10.00 y bore o'r Heights yn Llanberis. Gellir cofrestru ar gyfer unrhyw un o'r pedwar pellter rhwng 8.00 a 9.30 y bore, (hefyd yn yr Heights). Mae'r trefnwyr yn gofyn yn garedig i chwi beidio parcio yn yr Heights ar y diwrnod.

Am fwy o wybodaeth am y cyrsiau ac er mwyn cofrestru ymlaen llaw, cysylltwch efo ein gwefan <http://l.facebook.com/www.bryniaumtb.co.uk>.

neu ar Facebook: MTB Mountain Challenge.

Ras Nos Galan Llanberis



Am y tro cyntaf erioed cynhaliwyd Ras Noson Galan yn Llanberis ar brynhawn olaf 2016. Hon oedd y ras gyntaf i Hwb Eryri ei threfnu o fewn y gymuned, a bu'n hynod o lwyddiannus. Rhedodd dros 150 o blant, ieuenctid ac oedolion o bob oed 1 milltir o amgylch pentref Llanberis cyn mwynhau sioe tan gwyllt dros Lyn Padarn. Mae Stephen Edwards, y trefnydd, yn gobeithio bydd y ras yn dod yn rhan o galendr digwyddiadau'r pentref. I'r rhai ohonoch a fethodd y digwyddiad y llynedd, mae gennych - bron iawn - i flwyddyn i baratoi am y nesaf. Dechreuwch ymarfer!